

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

**Rhifyn 353 - 60c
Mai 2017**

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Cadwyn
Cyfrinachau
yr Ifanc**



Tudalen 20

**Cymeriadau
Bro Llain y
Castell**



Tudalen 13

**Ford Gron
yn 50 gyda
Nigel Owen**



Tudalen 10

Ymdrechion Pobl ein Pentrefi



Trefnwyd Taith Dros Fywyd lwyddiannus ar 23 Ebrill i godi arian at Sefydliad Aren Cymru gan ddechrau o Ysgol Llanwenog ar daith o gwmpas Brynteg, Rhuddlan, Plas y Dolau, Drefach a nôl i'r Ysgol a chasglwyd dros £600.



Swyddogion Côr Lleisiau'r Werin yn cyflwyno sic o £500 i Philippa Davies Swyddog Codi Arian Statudol y Gymdeithas Strôc at waith y Gymdeithas. Codwyd yr arian mewn gwasanaeth carolau a gynhaliwyd gan y côr yn Eglwys Llanybydder ym mis Rhagfyr. Yn y llun mae Margaret Roberts Trysorydd, Edith Williams Llywydd, Philippa Davies, Ceinwen Evans Cyfeilydd, Elonwy Davies Arweinydd ac Ann Bellamy Ysgrifennydd.

Llion Thomas, Gilfachwen, Llanbed enillodd y Gadair i rai o dan 21 oed am yr ail dro yn Eisteddfod Capel y Groes. Roedd y gadair yn rhoddedig gan Gwyn a Heddwyn Jones, Alltyblaca. Gweddill lluniau'r Eisteddfod ar dudalen 24.

O gwmpas y fro



Brenhines Carnifal Llanybydder - Nia Davies; Cynorthwyr - Adele Rees a Sara Davies; Tywysog - Taylor Rees; Brenhines Tylwyth Teg- Lily Mumford.



Tîm Pêl-droed Merched Carreg Hirfaen - Pencampwyr Ceredigion



Timoedd ffensio CFfl Llanllwni a fu'n llwyddiannus yn ddiweddar.



www.facebook.com/clonc360



@Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@HelenGwenllian
Ebrill 23
@DyffrynCledlyn Plantos
Llanwenog wedi cwblhau
Taith Dros Fywyd ar hyd
y Plwyf i gefnogi Apel
@KidneyWales

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@LampeterRT
Ebrill 15
Helfa Wyau Pasg
#Llambled

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@Craffwr
Ebrill 12
Buddigoliaeth i Dîm
Ieuentid
@LampeterTownRFC
17, @ClwbRygbiCNE 6
heno #yagym.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@cffi brodderi
Ebrill 10
Noson gret heno,
llawn sbort a
chwerthin yn bowllo
deg, gan orffen y
noson yn y ffordd
draddodiadol - swper!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@cffi llanwenog
Ebrill 10
Aelodau'r clwb wedi
joio stwffo yn y gegin
gyda Gareth heno!
#bwydpasg #joio

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
@Clonc360 neges
@CorCwmann
Ebrill 7
Cinio blynyddol y cor

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Mai Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Mehefin Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis,
Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyon Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhyweth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Etholiadau, etholiadau!

Os nad oedd digon o lanast ym myd gwleidyddiaeth gwledydd Prydain, mae'r ddrama'n parhau. Er, mae'n debycach i opera sebon neu ffars ym marn rhai!

Alla' i ddim honni fy mod i'n gallu darllen meddwl y Prif Weinidog, Theresa May, a fyddwn i ddim eisieu newid job â hi am filiwn o bunnoedd. Ond rwy'n synhwyro fod y panig i gynnal etholiad brys ar gyfer San Steffan ddechrau Mehefin yn deillio o'r ffaith nad oedd neb yn disgwyl i gelwyddau Brexit ennill y dydd. A dyw Mrs May ddim yn gwneud unrhyw ffafrâu â hi'i hunan: mae lluniau ohoni'n ymgychu dros aros yn yr Undeb Ewropeaidd, ond erbyn hyn mae hi fel petai wedi anghofio hynny ac yn frwd o blaid gadael. Ac mae digon o dystiolaeth ohoni'n tyngu yn blwmp ac yn blaen na fyddai hi'n galw etholiad cyffredinol brys - ac yna daeth y tro pedol rai wythnosau'n unig wedi hynny.

Mewn cyfnod lle nad yw pobol yn gallu trystio aml i wleidydd ac yn gallu gweld trwy'u celwyddau, dyw hi'n ddim syndod taw canrannau bach sy'n mynychu'r blychau pleidleisio. Ac waeth i chi gyfadde', oni bai eich bod yn anorac gwleidyddol, mae cael papurau canfasio drwy'r drws mor aml yn ddigon i'ch diflasu.

Yr etholiad cyffredinol ar 8 Mehefin fydd y pumed pleidlais i ni'r Cymry o fewn ychydig dros ddwy flynedd. Mae hyn yn sefyllfa anarferol. Ond ceisiwn edrych heibio'r diffyg brwdfrydedd, ac hyd yn oed heibio i gelwyddau'r gorffennol, gan gofio mor bwysig yw hi i ni ddefnyddio'n hawl i fwrw pleidlais. Mae digon o straeon ar lawr gwlad am wleidyddion bach a mawr, lleol a chenedlaethol, yn ennill o ddyrnaid o bleidleisiau'n unig - felly mae hi'n ffaith bod pob un pleidlais yn cyfri.

Un peth ddweda'i i gloi, tra'n ceisio aros yn ddiduedd - mae angen i ni gadw'n llygaid ar ddyn ifanc o ardal Clonc sy'n enw newydd i fyd lecshwn. Heb roi pwysau annheg ar ei ysgwyddau, gallwn ni ddisgwyl pethe mawr oddi wrtho yn y dyfodol. Dim ond gobeithio na fydd y cecru a'r towlu baw sy'n gallu digwydd mewn ymgyrchu etholiadol yn ddigon i'w ddanto.

Cloncen

Pwerdy Iaith


Dros y misoedd nesaf fe fydd Cered: Menter Iaith Ceredigion yn cychwyn prosiect newydd er mwyn asesu gwir sefyllfa'r Gymraeg yn Llambled a'r cyffiniau trwy ffurfio Pwerdy Iaith Llambled.

Mae gan Cered brosiectau tebyg yn nhrefi Aberaeron, Aberteifi, Aberystwyth, Llandysul a Thregaron ac yn ystod 2017 rydym am lansio Pwerdai Iaith yn Llambled.

Gan ddefnyddio pecyn adnoddau Gweithredu'n Lleol Llywodraeth Cymru y bwriad yw i ddod â thrigolion lleol at ei gilydd er mwyn trafod ac adnabod cryfderau a gwendidau'r Gymraeg yn lleol mewn 5 maes eang a gwahanol. Y meysydd yma yw Demograffeg; Trosglwyddo Iaith a'r Blynnyddoedd Cynnar; Addysg; Bwrlwm Cymdeithasol a Diwyllianol a'r Economi a Gwasanaethau Lleol.

Bydd Cered yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws er mwyn ymchwilio i sefyllfa'r Gymraeg yn y meysydd a restrwyd uchod cyn mynd ati i baratoi cynllun gweithredu. Fe fydd y cynllun gweithredu yma yn galluogi Cered i gydweithio gyda'r gymdogaeth leol er mwyn datblygu prosiectau i gryfhau'r Gymraeg yn Llambled. Gydag amser y nod yw grymuso'r gymdogaeth leol i allu gweithredu o blaid y Gymraeg a cyfoethogi'r ymdrechion sydd eisoes ar waith yn y dref i gynnal a chryfhau'r iaith.

Os oes diddordeb gennych ddysgu mwy am y prosiect neu os ydych am sicrhau eich bod yn derbyn gwahoddiad i'r grwpiau ffocws yna cysylltwch gyda Swyddog Datblygu Cymunedol Cered, Steffan Rees ar 01545 572 350 neu steffan.rees@ceredigion.gov.uk.



O'r Cynghorau Bro

Cyngor Cymuned Llanybydder

Rhodddwyd £500 i Bwyllgor Pentref Llanybydder tuag at y Carnifal eleni. Rhodddwyd £50 tuag at Wersyll yr Urdd, Llangrannog.

Mae'r Clerc yn cysylltu â chwmni Traws Link Cymru i gael atebion i rai pethau.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Geraint Davies, Clerc: Gwennan Jenkins

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Sir Euros Davies ar gael ei ail-ethol yn ddiwrthwynebiad a chroesawyd chwe chynghorydd cymuned newydd sef Alwena Williams, Eluned Jones, Siôn Jenkins, Hazel Thomas, Emyr Rees a Brian Thomas. Bydd y rhain yn ymuno â Helen Howells, Daniel Evans, Gwilym Jenkins, Bill Green a Geraint Davies. Diolchwyd i Alun James, Mary Thomas, Lewis Davies, Alun Davies, Daff Davies a Geraint Hatcher am eu gwasanaeth diflino dros blwyf Llanwenog.

Trefnwyd Taith Dros Fywyd lwyddiannus arall ar 23 Ebrill i godi arian at Sefydliad Aren Cymru. Eleni dechreuwyd o Ysgol Llanwenog ac aed ar daith o 4.5 milltir o gwmpas Brynteg, Rhuddlan, Plas y Dolau, Drefach a nôl i'r Ysgol am gawl blasus a baratowyd gan y Cynghorwyr Cymuned. Diolch i'r Brifathrawes a'r Gogyddes, Eleri Davies am agor yr ysgol a helpu gyda gweini'r bwyd. Ymunodd hanner cant o bobl o bob oed â ni ar y daith a chasglwyd dros £600 at elusen Sefydliad Aren Cymru. Bore bendigedig o ddysgu am ddarn bach arall o'n Plwyf hanesyddol!

Bydd y CCB am 7.30yh yn Neuadd Drefach, nos Fercher 10 Mai 2017.





MAI

5 Arddangosiad Dartiau gyda Andy Fordham a Trina Gulliver Clwb Rygbi Llanbed. Tocynnau: 07580128039.
5 Dau Seicig - Deborah Rees a Paul Rees yng Nghlwb Pêl-droed Llanbed am 7.30yh.
5 Cinio Ardal Gogledd Sir Gaerfyrddin yn Neuadd Lloyd Thomas Coleg Llanbed i godi arian tuag at y Sioe Fawr.
5 Lansio nofel Dŵr yn yr Afon gan Heiddwen Tomos yn Neuadd yr Hafod Gorsgoch am 7.00yh.
5 Cyngerdd yn Neuadd y Jiwbili, Llangeitho am 7.30y.h. gyda Tudur Jones a Bois y Rhedyn. Arweinydd: Eirwyn Richards, Pumsaint.
6 Diwrnod sganio lluniau Ysgol Cwrtnewydd i'w cynnwys mewn llyfr i dathlu addysg 10.00 – 4.00 yn yr Ysgol.
6 Eisteddfod Capel y Fadfa, Talgarreg. Am rhagor o fanylion cysylltwch â Emyr Griffiths ar 01545 590383 neu Enfys Llwyd ar 01545 590295.
6 Noson canu gwlad yng Nghlwb rygbi Llanybydder am 7.30y.h.
9 Noson Goffi ac Adloniant yn Ysgol Bro Pedr gan Adran ac Aelwyd yr Urdd Llambled am 7.00y.h.
11 Diwrnod prisio nwyddau yn Amgueddfa Llambled 10y.b. – 2y.p.
13 Rali C.Ff.I Sir Gâr.
13 Diwrnod Hwyl Ambiwlans Sant Ioan yng Nghlwb Rygbi Llanbed rhwng 10.00yb a 4.00yp.
13 Andy James teyrnged i Elvis yng Nghlwb Pêl-droed Llanbed.
14 Cyngerdd Cardi-Gân yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30yh
14 Rihysal Cymanfa'r Bedyddwyr am 2.00y.p. yn Salem, Caio.
16 Cyfarfod Blynyddol CLONC yng Nghlwb Golff Cilgwyn am 7y.h.
16 Cyfarfod Cymorth Cristnogol yn Festri Brondeifi am 7.00y.h. gyda Eleri Twynog yn sôn am ei thaith ddiweddar i Bolivia.
17 Te Prynhawn Ymchwil Cancr yn Y Pantri, Llambled am 2.00y.p.
17 Noson Agored Ysgol Dyffryn Cledlyn 4-6 y.p.
18 Lansio “Cerrig Milltir” Hunangofiant Aled W. Williams yn Eglwys Sant Pedr Llanbed am 7y.h.
19 Noson Goffi dan nawdd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.00y.h.
19 Noson gymdeithasol gyda Harmoni yn Festri Brondeifi, 7.30y.h. Gair gan Elin Jones AC. Tocynnau £6 gan Ann Morgan, 422413.
20 – 21 Twrnament Pêl-droed Llanybydder ar y Cae Rygbi.
21 Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambled yng nghapel Noddfa am 4.00y.p.
22 Derbyn Newyddion CLONC.
23 Eglwys Llanybydder yn cynnal noson bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8 y.h.
26 Rasys Moch ar gyfer codi arian i daith yr Urdd i Batagonia, 7.00yh Clwb Rygbi Llambled.
26 Celf Llambled yn cyflwyno Ani Glass yn Neuadd Fictoria, Llanbed.
26 Noson Gwis R.A.B.I Ceredigion yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. £10 i gynnwys Selsig a Sglodion. 7 i 7.30y.h.
27 Carnifal Cwmann ar gae'r pentref.
28 “It's a Knockout” ar Gae Rygbi Llanybydder am 1.00y.p.
28 Taith Tractorau Drefach i ddechrau o gaeau Maesyronnen am 10.30y.b. Manylion pellach: Peter 434342 neu Jeff 481121.
29 Arwerthiant Cist Car Sefydliad y Merched ar y maes parcio ger Neuadd y Coroniad, Pumsaint am 10y.b.
31 Plygu CLONC yn Festri Shiloh, Llambled am 4.00y.p.

MEHEFIN

1-3 Gŵyl Gwrw Llanfair Clydogau.
3 Taith Edward Llwyd yn dechrau o Lanfair Clydogau tuag at Lanbed.
3 Rali C.Ff.I. Ceredigion yn Nhregaron.
10 Diwrnod Agored Ysgol Dyffryn Cledlyn 12.00-4.00 y.p.
17 Sialens 60 milltir C.Ff.I. Llanwenog.
17 Diwrnod Dathlu 150 mlwyddiant Undeb Bedyddwyr Cymru Canolfan yr Halliwell, Caerfyrddin 10 tan 4.30yp.
17 Noson Agored Ysgol Dyffryn Cledlyn 4-6 y.p.
18-24 Wythnos carnifal Llanybydder.
24 Carnifal Llanybydder ar y Cae Rygbi.
25 Cyngerdd gan Gôr Merched Bro Mwyn yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi am 7:30y.h. Dewch yn llw.
27 Ffair Haf Ysgol Bro Pedr am 2.45yp gyda Ras Hwyl i ddilyn.
30 Noson Rasys Sarn Helen Ysgol Felinfach.

GORFFENNAF

1 Diwrnod hwyl C.Ff.I. Llanwenog yng Nghaerwenog, Penffordd.
7 Hufen, Mefus a Chân yng Nghlwb Bowlio Llanbed 7.00y.h. gyda Chôr Cwmann. Elw tuag at Cancer DU a Chanolfan Gymraeg yr Andes.
8 Prynhawn Agored Ysgol Llanwnnen.
15 Prynhawn o ddathlu yn Ysgol Llanwenog am 2.00y.p.
16 Prynhawn o ddathlu yn Ysgol Cwrtnewydd.
22 Cneifio Llambled ar fferm Capeli gan ddechrau am 8.00y.b.
29 Ffair Fwyd Llanbed ar dir Prifysgol y Drindod Dewi Sant.

AWST

5 Carnifal Llanbed ar gaeau rygbi'r dref.
11 Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.
26-28 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn 50 oed.

MEDI

9 Ffair Ram ar Gae Pentref Cwmann.
16 Cyngerdd Mawreddog Dathlu 50 oed Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Theatr Felinfach. Artistiaid: Côr Canna, Steffan Rhys Hughes a Charlie Lovell Jones.
17 Aberduar 275: Oedfa'r dathlu am 2.00y.p, te i ddilyn a Chymanfa ganu am 6.00y.h. Croeso cynnes i bawb!

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â theuluoedd Blaenhirbant-Ganol a Thyngrug-ganol yn eu profedigaeth o golli perthynas agos iddynt sef Mrs Nanna Jones o Rhydowen yn ystod y mis.

Cymanfa Ganu

Cafwyd diwrnod arbennig iawn yng Nghapel y Cwm ar ddydd Sul, Ebrill 23ain 2017 pan gynhaliwyd Cymanfa Gerddorol yr Undodiaid yno. Hyfryd oedd gweld y capel bach yn llawn dop ac estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Parch Wyn Thomas. Arweiniwyd y canu gan Mrs Carys Griffiths-Jones, Fronddu, Cwrtnewydd – un sydd wedi cyfrannu yn helaeth iawn i fyd canu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cafodd y gorau allan o'r ieuencid a'r plant. Daeth llywydd o Gapel y Cwm i oedfa'r prynhawn sef Miss Hedydd Jones, Caerfyrddin, ond Hedydd Penlanfawr gynt i bawb yn yr ardal. Cafwyd ganddi araith bwrpasol yn llawn atgofion o'i chyfnod yn mynychu'r Gymanfa Ganu pan oedd yn blentyn.

Cafwyd lluniaeth arbennig wedyn yn y festri ac roedd pawb wedi joio'r cymdeithasu hefyd, yn enwedig gan fod y tywydd mor braf y tu allan.

Cynhaliwyd Cymanfa'r oedolion yn yr hwyr a'r capel eto yn gyfforddus lawn a Carys yn cael y gorau allan o'r côr o gantorion – roedd rhain yn canu yn odidog. Cyfeilyddes y ddwy oedfa oedd Miss J Eirian Jones, Cwmann – un fedrus tu hwnt wrth yr organ. Llywydd oedfa'r hwyr oedd Mrs Gaynor Richards, o Gapel Pantydefaid ac sydd â'i gwreiddiau yng Nghapel y Cwm (hen deulu'r Lloyd's, Pyllau'r Bryn). Roedd ganddi hanesion di-ri o'i phlentyndod yn mynychu'r Gymanfa ac roedd yn browd iawn i fod yn llywydd ar Oedfa'r Hwyr. Cawsom gyfraniadau hael iawn gan y ddwy lywydd.

Diolchodd y Parch Wyn Thomas, trefnydd y dydd i bawb am ddiwrnod llwyddiannus iawn yn hanes Capel y Cwm ac fe drodd pawb am adre wedi cael diwrnod hynod o bleserus yn gwrando ar ganu safonol tu hwnt.

Diolch i bawb a fu yn trefnu hefyd.

Priodas Dda

Ar ddydd Sadwrn olaf mis Ebrill priododd Bryn a Sian, Tawel yn Eglwys Ystrad Aeron, Felinfach. Hir oes i chi yn eich bywyd priodasol.

Alltyblaca

Priodas Dda

Priododd Angharad a Rhys, Bro Teifi yn Eglwys St Lucia, Llanwnnen ar ddydd Sadwrn, Ebrill 29ain. Dymuniadau gorau i chi yn eich bywyd priodasol.

Ysgol Llanllwni

Croeso i Liwsi Benson sydd wedi dechrau yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen. Mae wedi setlo yn dda ac yn hapus iawn ymhlith ei ffrindiau newydd. Mae'n braf hefyd croesawu Miss Rhian Davies nôl ar ôl ei chyfnod mamolaeth.

Hoffem ddiolch yn fawr i Dave a Tracey, Y Swyddfa Bost, am rodd o £28.50 yn dilyn raffl Nadolig a drefnir ganddynt yn flynyddol. Codwyd y swm o £149.50 wrth gynnal 'Jumble Sale' a 'Bags2School' yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

Ar ddiwrnod Trwyn Coch gwisgodd y plant eu dillad tu ôl tu blaen a phrynu trwyn coch er mwyn codi arian.

Bu Elan, Marek a Tudur yn cystadlu yn rasys Trawsgwlad yr Urdd yn Llanbed. Llongyfarchiadau i Tudur, Blwyddyn 3, am lwyddo i fynd ymlaen i draws gwlad y Rhanbarth yn Aberaeron ac efallai Marek gan iddi ddod yn eilydd yn ei ras Blwyddyn 4. Ymunodd Marigold, Elan, Alwena a Marek â merched Ysgol Llanybydder er mwyn gwneud tîm i gystadlu yn Nhwrnament Pêl-droed yr Urdd yn Aberystwyth. Cawsant ddiwrnod hwylus gan fwynhau y profiad.

Ar ddiwrnod olaf y tymor trefnodd Andrea'r gogyddes bicnic Pasg fel ein cinio ysgol. Gwnaeth pob plentyn het neu fonet Basg a chan i'r tywydd fod mor braf cafwyd y picnic allan ar iard yr ysgol ac roedd nifer o'r plant wedi dod â'u tegan meddal! Diolch i Andrea am ei hymdrech a'r picnic blasus.

Yn ystod gwyliau'r Pasg bu Alwena a'i chwaer Gwennan yn canu, ar ran yr ysgol, mewn Cymanfa Fodern yng Nghapel Nonni. Da iawn chi ferched. Roedd yn noson hwylus iawn.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol, mis Ebrill: 1af - £10 – Mr. Gareth Jones, Pennaeth Ysgol Llanllwni; 2ail - £5 – Kenneth Davies, 1 Maes Berllan, Gwyddgrug; 3ydd - £5 – Jaelene Lucas, 12 Bro Nantlais, Gwyddgrug.

Arholiadau Telyn

Llongyfarchiadau i Alwena Owen o Llanllwni ar ennill gradd 1 telyn distinction a Hannah Williams o Aberaeron gradd 3 telyn distinction. Mae'r ddwy yn cael eu dysgu gan Georgina Cornock-Evans.

C.Ff.I. Llanllwni

Mae hi wedi bod yn fis prysur arall i ni yn Llanllwni. Ac hefyd yn fis llwyddiannus!

Ar Ebrill y cyntaf roedd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymru yn Llanellwedd. Roedd yn braf gweld dau aelod o'r clwb yn mynd yno i gynrychioli'r Sir sef Owain Davies a Sioned Howells.

Llongyfarchiadau mawr i Owain Davies oedd yn rhan o'r tîm hŷn Cymraeg a ddaeth yn fuddugol. Hefyd da iawn i Sioned Howells oedd yn rhan o'r tîm Iau Saesneg, ac fe ddaeth hi yn drydydd fel prif siaradwr. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonynt.

Cynhaliwyd noson Bingo y clwb ar y 7fed o Ebrill lle fuodd rhai yn fwy lwcus nag eraill. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r clwb ac i'r holl aelodau am gyfrannu tuag at y gwobrau neu â chacenau. Diolch hefyd i John ac Anne am ganiatáu i ni ddefnyddio Talardd i gynnal y noson.

Cynhaliwyd cystadleuaeth ffensio y sir ar 12fed o Ebrill, ar gaeau Milestone, New Inn, drwy garedigrwydd teulu Blaenblodau. Da iawn i dîm hŷn y clwb am ddod yn ail ac i dîm iau y clwb am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth honno. Ar Ebrill 14 fe gynhaliwyd noson Dawns Dewis Llysgenhaden y Sir lle fuodd aelodau hŷn y clwb allan yn mwynhau. Dathlu mawr a fu ar ddiwedd y noson, pan gyhoeddwyd mai Siôn Evans o glwb Llanllwni yw llysgennad C.Ff.I Sir Gâr am y flwyddyn 2017. Llongyfarchiadau mawr i ti Siôn, rydyn ni i gyd yn falch iawn o dy lwyddiant, ac rydym yn dymuno pob lwc i ti yn y swydd!

Ar nos Sul 16 o Ebrill, cynhaliwyd Cymanfa Fodern yng Nghapel Nonni er mwyn codi arian tuag at y Sioe Frenhinol 2017, cafon ni fel clwb wahoddiad i fynd yno i ganu fel rhan o'r noson. Braff oedd cael bod yn rhan o'r noson llwyddiannus.

Ar 23 o Ebrill aeth rhai o aelodau ifanc y clwb ar drip 'paintballing' gyda Fforwm Ieuencid y Sir. Er bod llawer o gleisiau, braff oedd cael cymdeithasu gydag aelodau ifanc eraill o fewn y sir.

Dim ond y Rali fydd ar ôl gan aelodau'r clwb am eleni. Cofiwch ddod i'n cefnogi, gan gofio fydd yna dri aelod o'r clwb yn cael eu anrhydeddu ar y llwyfan yn y seremoni wobrwyo eleni, sef Siôn Evans - Llysgennad; Sioned Howells - Aelod Iau y Flwyddyn; ac hefyd Anwen Jones - Stocmon Hŷn y Flwyddyn. Llongyfarchiadau i'r tri.

Erbyn i chi ddarllen yr adroddiad hwn, bydd Anwen wedi cystadlu yn Stocmon y Flwyddyn Cymru ar Ynys Môn, edrychwn ymlaen am y canlyniad! Hwyl am y tro!

Diolch

Dymuna Eirwyn Davies, Dolgorse ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd tra yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Gwerthfawrogi eich consyrn yn fawr iawn. Diolch.



Siôn Evans, Cffl Llanllwni a ddewiswyd yn Llysgennad Sir Gâr gyda'r dirprwyon a'r llywydd ar noson y ddawns yn Llanfynydd.



Owain Davies a Sioned Howells Cffl Llanllwni a fu'n llwyddiannus wrth gynrychioli'r sir yng Nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymru.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Clwb 100 - Enillwyr mis Ebrill 2017: 1. Sioned Howells, 113; 2. Maescoch; 76. 3. Heather Jones 55. Diolch i bawb am gefnogi.

Undeb y Mamau

Cafwyd cyfarfod byr ar Ebrill 11eg i drefnu'r daith flynyddol, a rhaglen y tymor nesa. Bydd ein taith ar Fai'r 9fed, a'r bws yn gadael Llanllwni am 9.30yb.

Cafwyd gwasanaeth deuluol ar ddydd Gwener y Grogllith, dan arweiniad y Parch Suzy Bale. Cymerwyd rhan gan y plant a'u rhieni, a dilynwyd hanes dyddiau olaf yr Iesu i greu naws wirioneddol deimladwy.

Yn ystod Cymun Sul y Pasg, bedyddiwyd Lucy Grace Thomas, Garden House, Maesyrugiau merch Jane a Paul Thomas. Pob bendith arni.

Cylch Meithrin Llanllwni

Mae Cylch Meithrin Llanllwni yn rhedeg bob bore ar gampws yr ysgol gynradd rhwng 8.45-12, ac yn cynnig addysg a gofal o safon uchel trwy gyfrwng y Gymraeg i blant 2 oed tan oedran ysgol. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch a Bethan Vernon ar 07875409172 neu bethan704@btinternet.com

Cawsom noson llwyddiannus iawn ar y 3ydd o Ebrill yn cynnal Bingo Pasg i godi arian ar gyfer y Cylch Meithrin. Braff oedd gweld cymaint

yn ein cefnogi, diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth helpu trefnu'r noson, a diolch i Talardd am ein gadael i ni gynnal y Bingo gyda nhw. Gwnaed elw o £500 ar noswaith y Bingo a diolch i Christine o Banc Lloyds am gyfrannu £ am £ tuag at y digwyddiad.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Bydd Cylch Ti a Fi yn ail-gychwyn ar yr 2il o Fai gyda'r plantos yn cael cyfle i blannu hedyn Blodyn yr Haul. Cynhelir Cylch Ti a Fi ar brynawniau Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1-3yp ar gampws yr ysgol gynradd. Croeso i rieni, gofalwyr, mamgus a thadcu ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol gweithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros baned.

Gwellhad Buan

Pob dymuniad da am wellhad buan i Ray Harries, Castle View, yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

**Rhifyn Mehefin
yn y Siopau
1 Mehefin**

**Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
22 Mai**



Criw Plwyf Pencarreg a fu'n cerdded Taith Dros Fywyd yng Nghwmman a chodi £450 tuag at Sefydliad Aren Cymru ar y 23ain Ebrill.

Ysgol Carreg Hirfaen

Cafodd tîm pêl-droed merched a bechgyn Carreg Hirfaen ddiwrnod arbennig ar gaeau Blaendolau, Aberystwyth yn ystod y mis, wrth iddynt gystadlu yn Nhwrnament yr Urdd.

Gorffennodd y merched ar frig y grŵp gan ennill y pedair gêm yn erbyn Plascrug, Aberteifi, Y Ddwylan ac Ysgol Brynsaron. Ymlaen â nhw i'r wyth olaf wrth iddynt chwarae yn erbyn Ysgol Rhos Helyg. Enillodd y merched 2-0 i sicrhau lle yn y pedwar olaf yn erbyn Ysgol y Ddwylan. Brwydrodd y merched yn galed iawn gan ennill y gêm 2-0 i sicrhau lle yn y ffeinal yn erbyn Ysgol Bro Teifi.

Roedd yn gêm agos a chyffrous iawn gyda'r merched yn amddiffyn yn wych ac yn brwydro yn galed. Cyn hanner amser cafodd y merched y cyfle i sgorio wrth iddynt gael y bêl i hanner Bro Teifi. Cafwyd gwaith tîm hynod o wych rhwng Gwenllian, Cafi ac Elen a sgoriodd Elen y gôl i roi Carreg Hirfaen ar y blaen. 1-0 oedd y sgôr terfynol. Am berfformiad gwych gan bob aelod o'r tîm! Sgoriodd y merched 21 gôl yn y twrnament ac ond yn gadael 2 gôl i fewn. Pob lwc i'r merched wrth iddynt fynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yn y Genedlaethol ar y 6ed o Fai ar gaeau Blaendolau Aberystwyth! Pob lwc i Lowri, Marged, Cafi, Niomi, Cadi, Elen, Gwenllian, Jessica, Sophie a Cerys.

Profodd tîm pêl droed y bechgyn lwyddiant mawr hefyd wrth gyrraedd y rownd go-gyn derfynol. Yn anffodus colli o 1 gôl i 0 yn erbyn Aberteifi a wnaethant, ar ôl chwarae pêl droed gwefreiddiol trwy'r dydd.

Llongyfarchiadau enfawr i dîm Traws Gwlad yr ysgol wrth iddynt gystadlu yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Rhedodd pawb yn wych a braf oedd gweld 21 o blant yn gorffen yn y deg uchaf. Bydd y rhain yn awr yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Traws Gwlad

Rhanbarth yr Urdd ar ddiwedd y mis.

Gweler y plant fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol ar ddiwedd y mis.

Trefnodd y Cyngor ysgol weithgareddau ar ddiwrnod y trwyd coch a chodwyd £153 at yr achos teilwng yma. Gwisgodd y plant ddillad coch a thrwynau coch yn ystod y dydd. Diolch i chi.

Cawsom ymweliad gan yr RNLI i hybu diogelwch yn y dŵr ac ar y traeth.

Fel rhan o thema blwyddyn 3 a 4, 999 Argyfwng, cawsom ymweliad gyda Kevin Hughes a'i gi achub Celt. Cafwyd amser da yn gwyllo Celt yn chwilio am Mr Evans, oedd wedi mynd ar goll o gwmpas yr ysgol. Dysgodd y plant llawer am swydd Kevin a Celt.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

Mis Ebrill: 1. £20 Rhian Jones, Hafod Cottage, Cwmman. 2. £10 Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmman. 3. £5 Timothy Evans, Llanfair Fawr, Llanfair. 4. £5 Eifion Evans, Beili Coch. 5. £5 Aled Williams, Sarn Helen, Cwmman. 6. £5 Avril Williams, Y Fedw, Cwmman. 7. £5 Merry-Makers, Neuadd Cwmman.

Diolch

Dymuna Aneurin, Ty Capel, Caersalem ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 60 oed.

Côr Meibion Cwmman a'r Cylch

Cynhaliwyd Cinio Blynnyddol y Côr yng Nghlwb Rygbi Llambled nos Wener y 7fed o Ebrill ac fe gafwyd noson i'w chofio – bwyd blasus, cwmni da ac areithiau pwrpasol gan y Llywydd Mr Alun Williams, y Cadeirydd Mr Haydn Richards a'r Is-Gadeirydd Mr Kees Huysmans.

Cyflwynwyd anrheg i'r Llywydd am ei gefnogaeth hael i'r Côr am dros ugain mlynedd. Cyflwynwyd anrhegion hefyd i'r



Tîm Traws Gwlad Ysgol Carreg Hirfaen.

Arweinyddes, Mrs Elonwy Davies ac i'r gyfeillyddes Mrs Elonwy Pugh Huysmans am eu hymroddiad cyson a ffyddlon i waith y Côr.

Mae haf prysur o flaen y Côr sydd wedi cytuno i gynnal cyngherddau, diddanu mewn priodasau, cymryd rhan mewn Cymanfaoedd a chynnal gweithgareddau elusennol.

Yn ychwanegol at hyn mae'r Côr yn prysur baratoi ar gyfer cymryd rhan yn Neuadd Albert yn 2018. Mae'n debyg bod rhai llefydd sbâr ar y bws fydd yn cludo'r Côr i Lundain ac os rhywun â diddordeb i lenwi'r llefydd hynny cysylltwch ag Alun Jones neu Keri Davies.

18 oed

Dathlodd Morgan Lewis, Tŷ Cerrig ben-blwydd arbennig yn ystod y mis. Gobeithio i ti joio'r parti a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Carys Lewis, Tŷ Cerrig ar gael ei phenodi yn Bennaeth Ysgol Ciliau Parc. Dymuniadau gorau i ti ym mis Medi.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mary Jones, 40A Stryd Fawr, Llambled a'r tri mab Dafydd, Gethin a Gareth a'u teuluoedd ar farwolaeth Vernon. Priod, tad a thad-cu annwyl.

Hefyd â Sally ac Eifion Davies, Four Winds ar golli ei brawd yn sydyn yn ystod gwyliau'r Pasg.

Clwb 225

Mis Mawrth: 1. Mr a Mrs G. Russell, Coedeiddig Fawr, Cwmman, 138. 2. Mr a Mrs W. Edwards, Ddeunant, Cwmman, 173. 3. Mrs June James, Maesteg, Cae Ram, Cwmman, 75. 4. Mr a Mrs E. James, Mark Lane, Llambled, 235. 5. Canon Wynzie a Mair Richards, Maesteifi, Cwmman, 15. 6. Mrs Ann Evans, d/o Services Garage, Llambled, 51. 7. Mrs Jean Davies, 23 Cwrt Deri, Cwmman, 90.

Mis Ebrill 1. Eirian James, Mark

Lane, Llambled, 25. 2. Julie Davies, 16 Cwrt Dulas, Llambled, 29. 3. Graham Evans, Fferm Felinfach Cwmman, 146. 4. Alun Jones, Glanrhyd, Parcyrhos, 45. 5. Emyr Hargreaves, 17 Heol Hathren, Cwmman, 98. 6. Verina Roberts, Gelliaur, Parcyrhos, 164. 7. Margaret Jones, Glanhelen, Heol-y-Gogledd, Llambled, 210.

Sefydliad y Merched

Dathlu Gŵyl Dewi yn yr Hedyn Mwstard oedd ein cyfarfod ar nos Lun, Mawrth 3ydd. Yn absenoldeb ein llywydd Mary, croesawyd ni yno yn gynnes gan ein Is-Lywydd Gwen. Cafwyd gwledd i'w fwyta wedi eu baratoi gan Liz Jones a'r staff. Ar ôl gwledda cyflwynodd Gwen ein gwraig wadd am y noson Elinor Reynolds a'u merch Syfi. Awdur, un sy'n cyfieithu llawer o lyfrau Cymraeg, a golygydd. Roedd yn amlwg ei bod yn mwynhau'r gwaith yn ysgrifennu cerddi doniol a digri. Darllenodd ychydig ohonynt e.e. Cerdd i Ffair Aberteifi, a chelfi Alfresco ynghyd â darnau eraill o'i gwaith. Dywedodd bod Menna Elfyn yn ffrind ac yn gefnogol iawn iddi. Diolchwyd iddi am noson tu hwnt o ddiddorol gan Gwyneth ac hefyd i Liz a'r staff yn Hedyn Mwstard am y croeso a'r wledd. Enillwyd y raffl gan Glesni, Joyce, Gwen, Brenda, Avril a Bethan. Cafwyd cyfarfod busnes i ddilyn.

Llongyfarchwyd Helena ar ddod yn gyntaf yn y noson Dominoes yn yr Hudd Gwyn. Hefyd, llongyfarch Iona am ennill gyda 3 o'r lluniau a aeth i'r swyddfa, ac mae llun o Aberaeron yn mynd i galendr Sefydliad y Merched 2018. 'Coedmor ar y map'. Cafwyd gwahoddiad oddi wrth Sefydliad y Merched Llanddewi Brefi i Noson Hybu Cig Cymru ar Ebrill 5ed. Stiwardio yn y Sioe Frenhinol – Morfudd, Elma, Gwyneth, Gwen a Mary. Cyfarfod grŵp Teifi yn Llanfihangel-ar-Arth nos Wener, Mawrth 17 am 7:30y.h. Siaradwraig Elin Jones, A.C.

Cwmann



Plant Dosbarth Meithrin Mrs Jones yn Ysgol Carreg Hirfaen oll yn eu dillad cochion ar ddiwrnod Trwynau Coch.

Teithio i Bontarfynach oedd ein cyfarfod ym mis Ebrill a chyrraedd 'Woodlands Tea Room'. Croesawyd ni gan ein llywydd Mary, ac yna cawsom groeso cynnes gan Sarah Bunton. Ar ôl ychydig o hanes y busnes, cawsom arddangosfa sut i wneud siocled ganddi. Yr oedd y siocled yn cael ei wneud o 'coco pod'. Dywedodd mai Belgian siocled oedd yn defnyddio fwyaf sef yr un tywyll. Roedd yn bwysig fod y gwres yn berffaith 25C i'r gogledd a 27C i'r de o'r 'equator'. Roedd wedi dechrau yno 8 mlynedd yn ôl

yn cyflogi dau berson llawn amser a thri pherson rhan amser. Ar ôl yr arddangosfa cafwyd pryd o fwyd blasus.

Diolchwyd iddynt am noson ddiddorol iawn gan Helena. Cafwyd cyfarfod busnes byr i ddilyn. Penderfynwyd cyfrannu £25 i'r Sefydliad gogyfer â'r Stodin yn y Sioe Frenhinol. Darllenwyd llythyr oddi wrth Manon yn diolch am yr arian tuag at Taith Patagonia.

Llongyfarchwyd Joyce ac Eirwyn ar ddathlu Priodas Aur ddiwedd mis Mawrth.

Llanybydder

Pwyllgor Pentref

Mae pwyllgor y pentref yn cynnal diwrnod "It's a knockout" ar y 28 o Fai lawr yn y cae rygbi am 1.00 o'r gloch. Bydd adloniant yn y Llew Du i ddilyn. Bydd hanner yr arian yn mynd i'r Cylch Meithrin a Chanolfan Deulu Llanybydder a'r hanner arall yn mynd at brynu byrddau picic i'r parc.

Noson Canu Gwlad

Bydd Memphis Belle yn canu yn y Clwb Rygbi ar y 6ed o Fai i ddechrau am 7.30yh. Pris tocyn yn £7.00 a bydd yr elw yn mynd tuag at Ymchwil y Cancr Llanybydder a Llanbed. I archebu tocyn gallwch ffonio Gary ar 01570 481449.

Eglwys San Pedr

Enillwyr Clwb 100 mis Ebrill: 1af Kathleen Edwards £15; 2ail Irene Pollard £10; 3ydd Margaret Roberts £5.

Yn ystod Gwasanaeth Sul y Blodau bu i aelodau olrhain gorymdaith orchfygol Iesu i Jeriwsalem. Ar Nos Iau Cablyd rhannwyd swper ag Eglwys eraill yn y Plwyf yn Eglwys Llanwenog er mwyn dwyn i gof y Swper Olaf, yr Iesu'n golchi traed ei ddisgyblion a Gardd Gethsemane.

Canolbwynt Gwasanaeth Gwener y Groglith oedd yr angerdd a'r Dioddefaint. Daeth tyrfâ ynghyd i Oedfa'r Pasg ar fore Ddydd Sul i ddathlu llawenydd yr Atgyfodiad. Rhannwyd cymdeithas bellach ar ôl y gwasanaeth pan oedd lluniaeth ysgafn ar gynnig sef cacennau Pasg ac Wyau Pasg - rhai gwag i gynrychioli'r bedd gwag. Atgyfododd Crist yn wir!

Dymunir yn dda i bob un sydd heb fod yn teimlo'n hwylus neu sydd wedi colli un annwyl yn ddiweddar.

Lleisiau'r Werin

Ar ôl seibiant y Nadolig, Capel Shiloh, Llambod oedd y lleoliad ym mis Chwefror lle canodd y côr "O Nefol Addfwyn Oen", sef un o emynau William Williams Pantycelyn, i ddathlu tri chan mlwyddiant geni'r Pêr Ganiedydd. Cafodd y canu ar y noson ei recordio gan Radio Cymru ar gyfer rhaglen Caniadaeth y Cysegr.

Yna, ym mis Mawrth, i ddathlu gŵyl ein Nawddsant, buom yn canu mewn cyngerdd Gŵyl Ddewi yng Nghapel Nonni. Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Eglwys Llanllwni oedd yn cynnal y noson a bu'r plant hefyd yn perfformio amrywiol eitemau'n raenus.

Nid canu yn unig y mae aelodau Lleisiau'r Werin yn hoffi ei wneud ond hefyd cymdeithasu, ac nid oedd eleni'n eithriad. Ar ddechrau Ebrill cawsom ein cinio blynyddol yng Nghegin Gareth. Yr oedd yn noson fendigedig gyda'r croeso'n gynnes a'r bwyd yn ardderchog. Cyflwynodd Edith, ar ran y côr, rodd fach yr un i Elonwy a Ceinwen gan ddiolch iddynt am eu gwaith diflino a'u hamynedd! Diolch Gareth am noson i'w chofio.

Yn ystod ein ymarfer yn ddiweddar, daeth Philipa Davies o'r Stroke Association atom i dderbyn siec o £500 oddi wrth y côr. Dyma'r casgliad a wnaed yn ein cyngerdd blynyddol yn eglwys San Pedr cyn y Nadolig. Diolch i bawb am eich cyfraniad i achos mor deilwng.

Aberduar

Mae Aberduar yn paratoi i ddathlu pen-blwydd 275 oed, ar 17 Medi 2017. Fel rhan o'r dathliadau, bydd te i bawb ar ôl Oedfa'r Dathlu. Bydd tipyn o waith trefnu'r bwyd ac felly fe fydd cyfarfod i ddechrau arni yn cael ei gynnal mewn da bryd ar 15 Mehefin, am 6.30 yr hwyr, yn festri Aberduar. Bydd diwrnod y dathlu yn ddiwrnod mawr i ni yn Aberduar, ac mae angen help pawb o aelodau ac o garedigion yr achos - os ydych o fewn cyrraedd, a diddordeb gennych, bydd hi'n dda iawn gennym eich gweld yn y cyfarfod hwn.

Ymdeoliad Hapus

Ymdeoliad hapus a chroeso nôl i Major Gary Evans ar ôl iddo treulio trideg wyth o flynyddoedd yn y fyddin. Mae Gary wedi derbyn llawer anrhydedd yn ystod ei yrfa ac yr ydym yn dymuno pob lwc iddo ef a'u briod Lynne yn ein plith. Mab Vivian a Gill Evans, Heol y Gaer yw Gary.



Llongyfarchiadau i Sioned Fflur Davies, Rhydybont, Llanybydder am gynrychioli CFFI Ceredigion yn nhîm Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg dan 14 oed yng nghystadlaeth Siarad Cyhoeddus Cymru ddechrau mis Ebrill. Cafodd y tîm Cymraeg drydydd a'r tîm Saesneg bedwerydd. Dyma lun o Sioned gyda'r cwpan enillodd am y Darllenydd Gorau Cymraeg dan 14 oed yng nghystadlaeth Siarad Cyhoeddus Ceredigion.

Cellan

Dyfodol Disglair

Canolfan hyfforddi newydd i oedolion yw Dyfodol Disglair a leolir mewn ystafelloedd pwrpasol i fyny'r staer ym Meithrinfa y Dyfodol, Cellan.

Rydym yn cynnig cyrsiau ar y cyd â Choleg Sir Gar a ITECSkills er mwyn diwallu anghenion hyfforddiant pobl leol yng nghanol y gymuned wledig. Yn barod rydym yn cynnig cyrsiau gofal plant, gan gynnwys Gweithiwr Plant Lefel 3 a bydd cyrsiau NVQ 2, 3 a 5 achrededig CACHE mewn gofal a rheolaeth yn cychwyn ar ddiwedd Ebrill 2017.

Dyma ddatblygiad cyffrous newydd sy'n cynnig gofod dysgu, addysgu ac astudio gyda thechnoleg fodern ac adnoddau penigamp i'n rhanddeiliaid: gallwn gynnig lleoliad gwaith hefyd o fewn ein meithrinfa dydd lwyddiannus.

Ar wahân i ganolbwyntio ar gyrsiau gofal plant, byddwn hefyd yn cynnal cyrsiau byr ac estynedig mewn cwnsela, technoleg gwybodaeth, iechyd a diogelwch a rheolaeth.

Am wybodaeth bellach am argaeledd ac archebu hyfforddiant, adnoddau ac ystafelloedd, cysylltwch â Helen drwy e-bost neu ffôn: 01570 493601 dyfodoldisglair@gmail.com

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

Llanbedr Pont Steffan



Dymuna Ann a Densil Morgan, Y Gilfach ddiolch o galon i deulu a ffrindiau am eu dymuniadau lu ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem ym mis Ebrill. Diolch i Bopty Mark Lane am y gacen hyfryd ac i'r Hedyn Mwstard am y bwyd bendigedig.

Diolch am y rhoddion o £200 a gyflwynwyd i Sefydliad y Galon Llanbed.

Merched y Wawr

Bu ein cyfarfod Mis Ebrill yn un arbennig a gwahanol iawn. Gwahoddwyd chwech o ganghennau eraill atom a chroesawyd hwy ar ffurf penillion o'i gwaith ei hunan gan Elin, ein Llywydd. Rhoddodd groeso arbennig i griw Tinopolis atom sef Huw Fflash, Hazel a Patricia. Dewiswyd Gwyneth, ein ysgrifennydd i gael gweddnewidiad ganddynt. Aethant ati i drin gwallt, coluro a gwisgo Gwyneth ac roedd pawb yn cytuno ei bod yn edrych yn ardderchog, a hithau wedi ei phlesio hefyd.

Ar ôl hyn cafwyd gwledd wedi ei baratoi gan aelodau o'r pwyllgor a diolchodd un o bob cangen am y croeso ac am noson hwylus dros ben. Cynhaliwyd raffl hefyd a'r enillwyr oedd Gwenda, Brenda, Gwen, Susan a Gillian, a Dilwen enillodd y raffl misol.

Cafwyd pwyllgor byr ar ddiwedd y noson a dymunodd Elin yn dda i Irene Jones, un o'n haelodau ar ôl ei hanffawd cas.

Gwnaed trefniadau ar gyfer teithio i Cruglas, ger Tŷ Ddewi i ginio'r Llywydd Cenedlaethol ac aeth pawb adref ar ôl cael noson hapus a hwylus. Ie, noson i'w chofio.

Brondeifi

Ar Sul y Blodau - y 9fed o Ebrill - cafwyd gwasanaeth yng ngofal y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis. Yntau hefyd gymerodd yr awenau ar gyfer Sul Pawb Ynghyd (Sul y Rhoddion) ar yr 16eg o Ebrill. Daeth torf dda ynghyd ar gyfer Sul sy'n un pwysig yng nghalendr Brondeifi ers pum degawd a mwy. Braf oedd gweld fod rhai aelodau wedi dychwelyd o amrywiol ardaloedd i ymuno yn y gwasanaeth teuluol



Llongyfarchiadau i Rebecca Harrison, Maes Helem, Heol Llanfair, sy'n aelod o dîm pêl droed i ferched o dan 16 Castell Newydd Emlyn am chwarae yng ngêm derfynol Cwpan Cymru yn Llanelli yn ddiweddar.

hwn. Yn ystod yr oedfa bedyddiwyd Ilan Alffi Gregson, mab bach Carwyn a Lowri Gregson, Cwmann.

Doedd dim gwasanaeth ar Ebrill y 23ain gan fod y Gymanfa Ganu yn cael ei chynnal yng Nghapel y Cwm, Cwmsychbant. Yn dilyn gwasanaeth ola'r mis ar y 30ain yng ngofal y gweinidog, bydd cymundeb am 2 o'r gloch ar Sul y 7fed o Fai, a'r Parch Alun Wyn Dafis eto'n gwasanaethu. Ioan Wyn Evans, Caerfyrddin, fydd yng ngofal y gwasanaeth ar y 14eg o Fai am 10 o'r gloch.

Dros yr wythnosau diwethaf mae rhai o deuluoedd y capel hefyd wedi colli anwyliaid.

Roedd Mary Oliver wedi bod yn ffyddlon i'r capel am ddegawdau lawer, ac wedi bod yn un o bileri Urdd y Benywod. Roedd yn fardd talentog, ac fe gyfansoddodd gerdd arbennig am y capel - 'Brondeifi Hardd, Ein Capel Ni'. Heb os, roedd Brondeifi, a Llanbed, yn agos iawn at ei chalon, a bu hithau a'i diweddar briod, Will, yn byw yn Stryd Newydd am flynyddoedd lawer. Dros y blynyddoedd diwethaf, dirywiodd ei hiechyd a bu farw yng Nghartref Hafan y Waun, Aberystwyth, yn 93 oed.

Er nad oedd yn aelod o'r capel, roedd George Arrowsmith yn un o ffrindiau'r achos, a Nora, ei ddiweddar briod, yn un o bobl Brondeifi. Wedi cyfnod yn byw yng Nghwmman, ac yntau yn ei ganfed blwyddyn, bu farw ym Mheniel, ger Caerfyrddin.

Ganol Ebrill bu farw Vernon Jones, neu 'Vernon V&M', fel yr oedd nifer yn ei adnabod. Yn frodor o deulu Undodaidd o Gwmann, bu ef a'i wraig, Mary, yn rhedeg siop esgidiau V&M yn y dre am flynyddoedd. Ond bydd Vernon yn cael ei gofio hefyd fel crefftwr medrus, a bu ef a'i frawd, Trefor, yn gyfrifol am beintio'r Capel dros



Lansiwyd llyfr gan y teulu Price, Trefnwyr Angladdau - 'Teulu'r Gymwynas Olaf' a dyma'r teulu: Gwilym Price a'i fab Cerdin a'i wyrion Rhys a Rhodri.

sawl degawd, ac mae ôl sglein ei waith i'w weld ym Mrondeifi o hyd. Cydymdeimlwn yn fawr gyda theuluoedd y tri.

Cymdeithas Hanes

Croesawyd cynulleidfia niferus i gyfarfod mis Ebrill, gan yr Is-gadeirydd, Eric Williams, gan hefyd groesawu un o aelodau'r Gymdeithas i siarad ar y noson, sef y Parchedig Bill Fillery.

'Y Ffordd o Lundain i Dyddewi' oedd testun ei araith; yn cysylltu ei brofiadau fe'i hunan, â'r daith o bosibl y bu'r Pererinion yn ei theithio ers llawer dydd. Rhannwyd taflenni i'r aelodau: un yn dangos y pellter mewn milltiroedd o Lundain i Dyddewi, gan enwi llawer o'r trefi a phentrefi ar y ffordd; map o'r hen Sir Forgannwg, a chopi o 'map' Emmanuel Bowen - yn enwi'r lleoedd mewn rhestr, yn dyddio mae'n debyg cyn 1775. Doedd yna ddim sôn am yr A40, heblaw meddwl am yr M4, oedd roedd Bill Fillery wedi dilyn y ffordd a enwyd, gan ryfeddu at y cyd-ddigwyddiadau o fewn ei deulu.

Ei dad wedi ei ordeinio mewn un lle, ei wraig wedi ei geni o fewn ardal gofrestru Hounslow, ei famgu wedi ei magu yn Colnbrook; priodwyd Bill a'i wraig yn Maidenhead, ac yno y ganwyd eu teulu. Roedd yna heol o'r enw 'Ffordd y Pererinion' yn Maidenhead, ond wedi ei golli erbyn hyn. Daeth ffrind agos iddo yn Esgob Dorchester, ac yma gwelir elusendai yn dyddio o 1445.

Roedd yna lawer o dafarnau yn y lleoedd a enwyd - roedd angen llety a bwyd ar y teithwyr, a llawer o'r rhain wedi eu codi lle bu yna abatai cynt, y rheini hefyd wedi rhoi cysgod a bwyd i'r pererinion. Byddai'r mwyafrif wedi cerdded ar hyd y daith, ambell i asyn neu boni efallai, gan deithio 15-20 milltir y dydd.

Cysylltiadau eto â Chaerdydd ac Abertawe - blynyddoedd yn y Coleg,

a chael ei ordeinio yn giwrad i Eglwysi Treforus a Llangyfelach.

Dywedir fod Pererinion llesg wedi gorfod torri beddau i'w hunain yn Llandeilo Abercywin, ac olion wedi eu darganfod yma. Ffynhonnau sanctaidd hefyd ar y ffordd er mwyn disychedu'r teithwyr, yn ogystal â bod yn mannau iachau, e.e. yn Llansteffan a Ffynnon Non ger Tyddewi. Yn wir, ystyriwyd dau bererindod i Dyddewi fod cystal ag un i Rufain, neu'n hwyrach tair i Dyddewi megis un i Jeriwsalem.

Diolchwyd i Bill Fillery am noson ddifyr iawn, a chafwyd cyfle i bori drwy luniau a dogfennau ar ddiwedd y noson.

Bydd y cyfarfod nesa Nos Fawrth, Mai 16eg, 7.30og yn Hen Neuadd y Coleg, pan fyddwn yn cael hanes yr adnewyddiadau ar Stâd Llanerchaeron. Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn digwydd ar ddechrau'r noson.

Amgueddfa Llanbed

Cynhelir diwrnod o brisio unwaith eto dydd Iau, Mai 11eg 10yb - 2 yp yn yr Amgueddfa, pan fydd arbenigwr o gwmni Peter Francis, Caerfyrddin yn bresennol i brisio eich trysorau. Does ddim angen gwneud apwyntiad - dim ond troi i fyny.

Llwyddiant cerddorol

Llongyfarchiadau i Jessica a Michael McDonagh, Amakhaya, Heol Maestir am basio arholiadau piano yn ddiweddar. Gwnaeth Jessica basio Gradd 4 gan gael marciau llawn yn y theori tra gwnaeth Michael basio Step 2 gyda chlod. Da iawn chi.

Graddio

Llongyfarchiadau i Natalie Moore, gynt o Benbryn Llanbedr Pont Steffan am ennill gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol gydag anrhydedd. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Gyfun Maes y Gwendraeth, ar ol tair

Llanbedr Pont Steffan



Swyddogion Carnifal Llambed: Nikki Davies, Ysgrifennydd; Annwen Jones, Cadeirydd, a Donna Jones, Trysorydd, yn mynegi'u siom am y diffyg cefnogaeth i'r carnifal, ond wedi cyfarfod diweddar penderfynwyd cynnal y carnifal eto eleni.

blynedd o ddysgu yng Nghaerdydd.

Caniadaeth y Cysegr

Braf oedd gwrandao ar Ganiadaeth y Cysegr ar Radio Cymru ar 23 Ebrill. Recordiwyd y rhaglen mewn Cymanfa arbennig i nodi 300 mlynedd geni'r emynydd William Williams Pantycelyn a gynhaliwyd yng nghapel Shiloh. Roedd y canu yn orfoleddus dan arweiniad Delyth Morgans Phillips, ac Eurwen Davies yn cyfeilio. Delyth hefyd oedd yn cyflwyno'r emynau gan wneud ei gwaith yn rhagorol mewn ffordd mor ddiddorol yn ôl ei harfer. Rwy'n siŵr ein bod i gyd wedi ddysgu llawer wrth wrando arni. Mae Delyth, fel y gŵyr pawb yn arbenigwraig yn y maes hwn. O ganlyniad i'r Gymanfa codwyd £915 tuag at achos teilwng Cymorth Cristnogol.

Dathlu'r Pasg yn Noddfa

Daeth aelodau Noddfa ynghyd ar gyfer digwyddiad arbennig i ddathlu'r Pasg. Cyfle oedd hwn i'n hatgoffa beth yw gwir ystyr y Pasg ac hefyd i gymdeithasu o amgylch y byrddau tra'n mwynhau pryd o fwyd yng nghwmni'n gilydd. Fe'n croesawyd yn gynnes gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos ac yna clywsom anogaeth llythyr yr apostol Paul i'w gyfeillion yng Nghorinth ac hefyd ychydig adnodau o'r Testament Newydd yn cyfeirio at baratodau gwledd y Pasg. Offrymwyd gras wedyn cyn cyfranogi o'r prif gwrw ardderchog wedi ei baratoi gan y chwiorydd. Yn dilyn hyn clywsom hanes Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion ac yna mwynhawyd yr ail gwrw sef dewis o bwdinau chwaethus oedd yn tynnu dŵr o'r dannedd. Ar ôl paned daeth noson hyfryd i ben gyda'n Gweinidog yn gweinyddu'r cymun. Cyn troi tuag adref diolchodd Alun Williams i'n Gweinidog am ei pharatodau, i Ann Morgan a Myfanwy am drefniadau'r bwyd, i'r chwiorydd a'r brodyr oedd wedi cyfrannu'n helaeth at y lluniaueth

ac i'r 9 darlennydd. Tystiai pawb ein bod wedi cael noson fendithiol a phleserus iawn wrth ddod at ein gilydd i ddathlu gorfoledd y Pasg.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Adran ac Aelwyd yr Urdd

Cynhelir Noson Goffi ac adloniant yn neuadd campws cynradd Ysgol Bro Pedr nos Fawrth Mai 9fed am 7 o'r gloch. Bydd cyfle i bawb glywed eitemau buddugol aelodau yr Adran a'r Aelwyd yn Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion. Agorir y noson gan y Cynghorydd Hag Harris ac mae'r mynediad yn £3. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Bydd 54 o'r aelodau yn cael y profiad o gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar ddiwedd Mai - pob lwc i bawb.

Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr

Cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan yn Noddfa ar Sul Mai 21ain am 4 o'r gloch. Edrychwn ymlaen at groesawu Delyth Morgans Phillips i'n harwain. Llywydd y Gymanfa eleni yw Mrs. Rhian Evans, Salem Caio. Paratoir lluniaueth yn dilyn y Gymanfa ac estynnir croeso cynnes i bawb.

Sioe Feirch

Cynhaliwyd Sioe Feirch Llambed eleni ar Ddydd Sadwrn yr 22ain o Ebrill yng nghaeau Llanllyr, Talsarn. Roedd yr haul yn tywynnu o fore tan hwyr gydag ymwelwyr yn teithio o Brydain a thu hwnt ar gyfer y sioe.

Eleni, y prif bencampwr oedd Gwynfaes Seren Wledig o eiddo Meirion a Dianne Evans, Bridfa Gwynfaes dan feirniadaeth Mr Simon Bigley o fridfa enwog, Llanarth. Mae Dianne yn ddirprwy brifathrawes yn Ysgol Bro Pedr.



Gareth Wyn Jones, Llambed a dderbyniodd 'Gwobr Scowts y Frenhines', y wobwr uchaf ym myd scowtio, yn ddiweddar.

Dyma'r trydydd gwaith i'r fridfa gipio pencampwriaeth y cobiau Cymreig yn y sioe.

Mae'r Sioe yn parhau i fynd o nerth i nerth ac eleni o dan gadeiryddiaeth Mr Gwyn Jones, Frongoy, gosodwyd y cylchoedd mewn trefn wahanol. Profodd hynny i fod yn llwyddiant ysgubol gan greu gwell naws ar gyron y cylchoedd gyda'r cyhoedd yn gallu gweld mwy o'r dosbarthiadau ar yr un adeg.

Cydymdeimlo

Ganol mis Ebrill daeth y newyddion am farwolaeth Vernon Jones, 40A Stryd Fawr neu Vernon V&M roedd pawb yn ei adnabod. Cydymdeimlir yn ddwys â Mary ei wraig, a'r meibion a'u teuluoedd yn eu colled.

Cymorth Cristnogol

Cynhelir cyfarfod blynyddol o Gymorth Cristnogol yn Festri Capel Brondeifi ar nos Fawrth, Mai 16eg am 7.00y.h. Estynnir croeso cynnes i Eleri Twynog a fydd yn sôn am ei thaith ddiweddar i Bolivia. Estynnwyd gwahoddiad i Eleri i ymweld â'r wlad dlawd yma i weld sut mae prosiectau gan weithwyr Cymorth Cristnogol yn medru helpu. Bydd croeso i aelodau o'r gwahanol eglwysi a ffrindiau o'r tu allan i ymuno gyda ni. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mary Wyvill, un o'n dysgwyr amryddawn yn Llambed ar ennill y fedal ryddiaith am ei gwaith 'Llanw' yn Eisteddfod y Dysgwyr a gynhaliwyd yn Theatr Felinfach yn ddiweddar. Hefyd llongyfarchiadau i nifer o aelodau o'r 'Siop Siarad' fu'n fuddugol yn y canu unawd, deuawd, parti canu a sgetsh.

Clwb Pêl-droed

Hoffai'r pwyllgor ac aelodau'r Clwb Pêl-droed yn Llambed ddatgan eu cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd Mrs Betsy Jones, Maes

y Felin, a Mrs Phyllis Smith, 3 Stryd Priordy, Llanbedr Pont Steffan. Bu'r ddwy yn weithgar tu hwnt, ac yn gefnogwyr brwd o'r Clwb Pêl-droed.

Oedfa'r Bore ar Radio Cymru

Bydd y Parchedig Jill Tomos yn gyfrifol am yr Oedfa Foreol a ddarlledir ar Radio Cymru am 11.30 ar Sul, Mai y 7fed. Yn ei chynorthwyo bydd aelodau o'r Cylch Darllen sydd yn cwrdd yn Noddfa bob mis.

Ford Gron

Cynhaliodd Ford Gron Llanbedr Pont Steffan gyfarfod blynyddol cyffredinol ar nos Iau 6ed Ebrill yn y Royal Oak, gyda chinio yn dilyn yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen yn hwyrach ymlaen. Roedd yn ddiwedd i flwyddyn Rob Phillips fel cadeirydd a Rhys Bebb Jones fel Llywydd. Trosglwyddwyd yr awenau i'r cadeirydd newydd, Matthew Cobb a'r Llywydd newydd, Aled Davies. Mae Andrew Davies yn cymryd rôl Is-Gadeirydd, gyda Kyle Erickson yn Ysgrifennydd, Lee Drury yn Ysgrifennydd Digwyddiadau Cymdeithasol a Ryan Jones yn parhau fel Trysorydd.

Roedd y flwyddyn a aeth heibio yn un llwyddiannus a phrysur iawn, gyda digwyddiadau arferol fel yr Arddangosfa Tân Gwyllt, Coed Nadolig yn y dref a'r Wyl Gwrw a Seidr. Ar ddydd Sadwrn y Pasg cynhaliwyd Helfa Wyau Pasg yn y dref am y tro cyntaf, gyda 40 o blant yn cymryd rhan. Roedd yn gyfle i ddenu pobl i'r dref ac i'w hannog i grwydro o gwmpas, ac wrth gwrw cafodd pob plentyn wy Pasg siocled. Diolch yn fawr i Sainsbury's am noddi'r wyau Pasg.

Roedd y flwyddyn 2016-17 yn un bwysig i'r Ford Gron yn Llanbedr Pont Steffan wrth inni ddathlu ein pen-blwydd yn 50 oed. Fel rhan o'r dathliadau, cynhaliwyd Cinio Siarter 50 yn Neuadd Fwyta Llwyd Thomas yn y Brifysgol ar nos Fawrth 18fed Ebrill. Daeth nifer o gefnogwyr a chyn aelodau'r Ford Gron, gan

Llanbedr Pont Steffan



Ryan Jones, Trysorydd, Nigel Owens, Gŵr Gwadd a Rob Phillips, Cyn Gadeirydd yng Nghinio Dathlu'r Ford Gron, Llanbed yn 50 oed.

gynnwys rhai o'r aelodau sefydlu, ynghyd i ddathlu gyda ni, ac roedd yn gyfle da i ddal i fyny gyda hen ffrindiau. Y gŵr gwadd oedd y dyfarnwr rygbi rhyngwladol Nigel Owens, ac roedd ei araith yn hynod diddorol – cymysgedd o atgofion, straeon rygbi a hiwmor. Elusen y noson oedd Ambiwlans Awyr Cymru, a rhwng raffl ac arwerthiant, codwyd dros £1,000 tuag at yr achos. Cymerodd nifer o aelodau presennol a blaenorol y Ford Gron ran yn y digwyddiad, ac yfodd bawb lwnc destun i 50 mlynedd arall o hwyl, brawdgarwch a chodi arian.

Tîm Ieuenctid

Mae tîm ieuenctid Clwb Rygbi Llanbedr wedi cael tymor hynod o lwyddiannus. Ar ddiwedd Ebrill aeth y garfan ar daith i Tralee yn Iwerddon gan ennill 42 i 16 yn erbyn y tîm dan 20 yno. Gallwch ddarllen adroddiad Tomos Rhys ar wefan Clonc360. Eleni, tîm ieuenctid Llanbedr yw pencampwyr Cyngrhair Gorllewin Sir Gâr a theithiwyd i Gasllwchwr er mwyn chwarae yng Nghwpan Pencampwyr Cyngrhair y Scarlets yn erbyn Neyland. Yn anffodus, 24 i 10 oedd y sgôr i Neyland, ond cafwys gêm gyffrous.



ARWYN VOB
ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

- ❖ Cyfrifon Blyneddol ac Interim
- ❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
- ❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
- ❖ Cyflogau a CIS
- ❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

WINDY CORNER Coaches

Teithiau Bws 2017



		Oedolion	Plant dan 16
13/05/17	Malvern - Gwyl Wanwyn RHS Tocyn Mynediad wedi'i gynnwys. Plant o dan 16 am ddim	£26.50	11.50
01/06/17	Porthcawl	£13	£10
29/07/17	Caerdydd a Sioe Gerdd "Grease" Cyraedd Caerdydd 11:30yb. Prynawn Rhydd. Sioe am 5yh Canolfan Mileniwm Cymru *Tocyn i'r Sioe wedi'i gynnwys	£14 £55*	£11 £45*
09/08/17	Caer a Zw Caer Cyraedd 11:15yb. Gadel 5yh. *Tocyn mynediad wedi'i gynnwys	£15 £32*	£12 £27*
16/09/17	Gwyl Fwyd y Feni Tocyn Mynediad HEB ei gynnwys	£14.50	£11.50
02/12/17	Caerfaddon - Marchnad Nadolig	£18.50	£14.50
09/12/17	Birmingham - Marchnad Nadolig Yr Almaen	£16	£13

Manau Cyfarfod y Bws

Aberaeron, Felinfach, Llanbedr, Llanwnen, Llanybydder, Llanllwni, Llandysul, Pencader, Alltwalis, Rhydargaeau, Peniel, Caerfyrddin

Mwy o Deithiau i'w Ychwangeu

Am Fwy o Wybodaeth, Ffoniwch
01559 384 779

neu

ebost teithiau@windycornercoaches.co.uk



LAS Recycling Ltd



Gwasanaeth Casglu
Gwastraff Masnach
Am wasnaeth cost effeithiol a
dibynadwy ar gyfer eich holl
anghenion gwastraff cysylltwch â
ni ar: 01570 421421


Ffordd Tregaron, Llanbedr, Ceredigion, SA48 8LT

Gwasanaeth biniau ar olwynion NEWYDD
(1100L, 660L a 240L)





Gruff Tomos, seren y tymor blwyddyn 6 Rygbi Bro Pedr.



Ffion Davies Ysgol Bro Pedr, yn dod yn 2il ar yr Unawd Piano yn Eisteddfod Sir yr Urdd.



Casglwyd £247.80 tuag at daith Twm a Manon i Batagonia. Diolch i bawb o gampws cynradd Bro Pedr a gyfrannodd tuag at y gwerthiant cacennau mewn unrhyw ffordd.



Dorian Morgan, un o gyn-ddisgyblion yr ysgol oedd y gŵr gwadd yn Noson Wobrwy Ysgol Bro Pedr 2017. Gydag ef yn y llun mae Jane Wyn, Pennaeth a Rhian Haf Evans, Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Bro Pedr, a'r Prif ddisgyblion a'u dirprwyon - Nest Jenkins, Prif ferch; Morgan Lewis; Meirion Thomas; Rhys Davies; Alwyn Evans, Prif fachgen; Carie Collom a Ffion Jenkins.

Campws Iau

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y Cylch – llongyfarchiadau i bawb a phob hwyl yn y Sir yn Aberaeron - Ellie Mae, Sofie Ponomarov, Lowri Meles, James Evans, Megan Morris, Dion Deacon Jones, Michal Michalski, Laura Pasek, Caitlin Gately, Kuba Michalski, Cai Allen, Hugo Douglas, Liam Regan, Osian Young, Leah Regan, Grace Lambert, Amelia Rogalska, Brynmor Gibbons, Rhun Davies, Immanuel Ologun, Faye Jones, Jasmine Jones, Evie Mc Kay, Cerys Beckley, Levi Davies, Hywel Jones, Dylan Lloyd Griffiths, Damien Beeney.

Daeth PC Alun i wneud nifer o gyflwyniadau perthnasol gyda disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 am ddiogelwch ar y we a diolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr.

Gwnaeth timau pêl-droed y bechgyn a'r merched yn arbennig o dda yng nghystadleuaeth Sirol yr Urdd gyda thîm y merched yn cyrraedd y chwarter uchaf. Daliwch ati a diolch i Miss Davies a Mr Davies am drefnu ac hyfforddi.

Bu llawer o gyffro ym mlynedd 1 a 2 pan ddaeth cwmni "Edupets" i'r ysgol a chafodd y disgyblion i gyd gyfle i edrych, cyffwrdd a dysgu am nifer o'r anifeiliaid. Diolch i Mrs Young am drefnu.

Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn mwynhau yn y disgo blynyddol a drefnir gan Gyngor y Dref. Diolch yn fawr i Gyngor Tref Llambod am eu haelioni.

Cipiodd parti llefaru'r ysgol y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Capel y Groes - da iawn chi a diolch i Dr Delyth Jones am eich hyfforddi.

Casglwyd £247.80 tuag at daith Twm a Manon i Batagonia. Diolch i bawb o gampws cynradd Bro Pedr a gyfrannodd tuag at y gwerthiant cacennau mewn unrhyw ffordd.

Dyfarniad y Darllenydd

Nofel gyfoes a chignoeth am fywyd yng nghefn gwlad Cymru

Ar nos Wener, 5ed o Fai bydd Gwasg Gomer yn dathlu cyhoeddi nofel gan awdures newydd, gynhyrfus yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7 o'r gloch.

Mae Dŵr yn yr Afon gan Heiddwen Tomos yn nofel ysgytwol sy'n adrodd stori teulu mewn cymuned wledig yng ngorllewin Cymru.

Rhedeg ffarm sy'n troedio ffin fregus rhwng llwyddiant a methiant y mae Morgan a'i fab Rhys mae'r ddau'n anghytuno'n gyson ac yn dannod i'w gilydd am bwy sy'n feistr ar bwy.

Daw llais o'r gorffennol i ddatgelu'r gwead trasig sy'n clymu aelodau'r teulu'n dynn at ei gilydd, a dod â nhw i sefyllfa lle gellid yn hawdd ddatod pob dim yn llwyr...

Mae Heiddwen Tomos yn hanu o Gwrtnewydd yn wreiddiol ac mae bellach yn byw yn Mhencarreg ac yn Bennaeth y Gyfadran Celfyddydau Mynegiannol yn Ysgol Bro Teifi yn Llandysul.

Daw ei dylanwadau mwyaf o'i phrofiadau fel merch y wlad sy'n byw ym mro ei mebyd a daw ei hysgrifennu o'r profiadau hyn – wedi eu cymysgu â chryn dipyn o ddychymyg!

Meddai Heiddwen mai'r ysbrydoliaeth fwyaf ar gyfer y nofel oedd "... gweld sut mae'r chwerw â'r melys yn perthyn mor agos i'w gilydd. Mae pethe fyddaf yn ymddiried ynddynt, o bryd i'w gilydd, yn dweud celwydd. Mae hynny wrth wraidd sawl un o'r cymeriadau yn y nofel hon."


Derbyniodd y nofel ganmoliaeth gan feirniaid Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016.

Dywedodd un o feirniaid y wobwr, Jon Gower, "Dyma wledd o afiaith a thafodiaith... dyma awdur sy'n ddiamheuol ddeallus a mentrus."

Ychwanegodd y diweddar Gareth F. Williams, "Nofel am gefn gwlad sydd yma, ac un a'm hatgoffodd ar brydiau o nofelau a straeon cignoeth awduron Americanaidd Southern Gothic, megis Daniel Woodrell, Ron Rash a Bonnie Jo Campbell."

Bydd Heiddwen Tomos hefyd yn cymryd rhan yn y Bedwen Lyfrau yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar yr 20fed o Fai.

Mae Dŵr yn yr Afon bellach ar gael yn eich siop lyfrau leol am £7.99.



CYMRAG

Ariennir yn
rhannol gan
**Llywodraeth
Cymru**

Nid yw'r golygydd o
reidrwydd yn cytuno ag
unrhyw farn
yn y papur hwn.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHAI,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbedr
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244




Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221



Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwinau

* Arlwy ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gohebiaeth


Y Blew

Mae BBC Radio Cymru yn darlledu rhaglen arbennig i gofio am y grŵp pop Y Blew, gan y bydd hi'n 50 mlynedd ers iddynt deithio o gwmpas rhan helaeth o Gymru, yn ogystal ag ymddangos yn y Babell Llen, Eisteddfod Y Bala.

Rydym yn awyddus i glywed wrth unrhyw un a welodd y grŵp yn perfformio - cysylltwch ag Eurof Williams, 07967 024282 / 01792 862086 neu post@acmetv.net
Diolch yn fawr.

Hanes Capel Esgairdawe


Roedd Mam-gu (Mary Eunice Williams) wedi ysgrifennu llyfr am Hanes Capel Esgairdawe nôl yn y flwyddyn 1992. Bu farw 7 mlynedd yn ôl ond mae gennym ni nifer o gopïau o'r llyfr hwn ar gael.



Mae'r llyfrau ar gael yn rhad ac am ddim. Teimlaf ei bod yn drueni mawr eu gwaredu gan bod Mam-gu wedi treulio oriau yn ysgrifennu'r llyfr. Y rhif ffôn yw 07768517762. Cofion. Gareth Davies, Tim, Gwyneth a'r teulu.



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?

Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW

21 Stryd Fawr, Llanbedr
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y
"Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



CELFI CEGIN A 'STAFELL

WELY WEDI'U FFITIO,

ATEGOLION CEGIN,

CYFARPAR TRYDAN,

TEILS WAL A LLAWR

SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Adloniant gan Rhian Dafydd

Theatr
FELINFACH

Ar fore Sadwrn, 8fed Ebrill cafwyd bore gwych yma yn Theatr Felinfach i ddathlu digwyddiad 'Cer i Greu'. Mae Cer i Greu yn ddigwyddiad Prydeinig sydd mewn cydweithrediad gyda nifer o gyrff a sefydliadau celfyddydol ac yn cael ei gynnal yn flynyddol bellach dros benwythnos cyfan. Eleni'r penwythnos pwysig oedd y 7-9fed Ebrill. Bwriad Cer i Greu yw darparu llwyfan i ddychymyg, dyfeisgarwch ac unigoliaeth ac i gynorthwyo eraill i fod yn greadigol. Yma yng Nghymru roedd BBC Cymru Wales, Cyngor Celfyddydau Cymru a What Next? wedi dod at ei gilydd i hyrwyddo'r digwyddiad dros y penwythnos i ddathlu creadigrwydd y genedl. Dyna'r sicr a ddigwyddodd yn Theatr Felinfach! Croesawyd dros 60 o blant i ymgymryd â gweithgareddau amrywiol creadigol yn ystod y sesiwn foreol. Roedd sesiynau stori dawns a chân, i waith celf a chrefft heb anghofio helpa siocled. Pa ffordd well i ddechrau gwyliau'r Pasg nag yma yn Theatr Felinfach gyda'r haul yn gwenu ar yr holl greadigrwydd? Braf oedd croesawu SiopShed, Ysgol Gynradd Dihewyd ac Anrhegaron, Tregaron i'r digwyddiad - cafwyd amrywiaeth eang o fwydydd, cynnyrch a chrefftau Cymreig ganddynt. Rydym yn edrych ymlaen at ddigwyddiad y flwyddyn nesaf yn barod!

Ar Nos Iau, 13eg o Ebrill, sef y noson cyn Gwener y Groglith croesawyd Stifyn Parri atom gyda'i sioe un dyn, Cau Dy Geg! Sioe yn cyfleu amrywiol gyfnodau yn ei fywyd yn llawn storïau difyr amdano'i hunan ac am eraill yn y byd 'showbiz'. Noson lawn chwerthin iach a sioe wedi ei chynllunio'n arbennig.

Ar nos Sadwrn y Pasg, cafwyd penllanw chwe wythnos o waith paratoi sioe gan CDIC Cwmni Dawns Iau / Ieuencid Ceredigion. Eleni cafodd yr aelodau 7-11 oed a 12-18 oed sydd wedi bod yn cwrdd yn wythnosol gyda Lowri Briddon, Swyddog Creadigol (Dawns/Theatr) y cyfle i gydweithio a chreu sioe oedd yn cynnwys amrywiaeth o sgiliau dawns a choreograffi. Enw'r sioe oedd Y Daith a dyma oedd ffrwyth y 6 wythnos o waith datblygu ac arbroti i greu darn o waith gwreiddiol ac unigryw o'u heiddo nhw lle gwelwyd yr aelodau yn cyflwyno gwahanol arddulliau dawns o gwmpas y byd.

Braf iawn oedd cael y cyfle i groesawu Meilir Ioan fel dawnsiwr

gwadd y noson. Mae Meilir nawr yn ddawnsiwr proffesiynol sydd wedi graddio o Trinity Laban Conservatoire yn Llundain ac sydd ar hyn o bryd yn astudio cwrs MA mewn perfformio dawns.

Ar 29ain Mawrth cafwyd cyflwyniad gan Arwel Jones a Ray Williams o ymgyrch Cymru - Ohio 2018 yn y Hwyl a Hamdden i sôn am hanes llyfr dwyieithog cyffrous sydd i'w lansio'n fuan. Bwriad y llyfr yw dathlu deucanmlwyddiant 'Ymfudwyr y Mynydd Bach', sef 6 teulu o ardal Cilcennin ym 1818 i Ohio. Soniwyd am y cyfle i danysgrifio i'r llyfr a chafwyd prynhawn difyr iawn yn eu cwmni.

Dyma Amserlen Gweithgareddau: Dramatic! Clwb drama i ddisgyblion 7-11 oed - 4:00yp - 5:00yp Nos Lun - Ysgol T Llew Jones; Nos Fawrth - Ysgol Henry Richard (Campws Uwchradd); Nos Fercher - Y Gwndwn, Theatr Felinfach. Mae'r clybiau Dramatic yn brysyr yn creu sioe a fydd yn cyd-fynd gyda thema Llywodraeth Cymru eleni, sef Blwyddyn Chwedlau. Dyddiad y perfformiad yw 29ain Mehefin.

Cynhelir Clwb Dawns i blant 3 - 6 oed - Y Gwndwn, Theatr Felinfach - pob Nos Lun am 4:15yp - 5:00yp. Bydd y Clwb Dawns yn canolbwyntio ar sgiliau ac arddulliau dawns amrywiol.

Yr Ysgol Berfformio - Cynradd 7-11 oed - 4:30yp - 5:30yp Pris pob hanner tymor £30; Uwchradd 11-18 oed - 5:30yp - 7:00yh £35.

Cynllunio a Sgriptio Panto - Oes diddordeb 'da chi mewn cyfrannu a datblygu stori newydd gyffrous, creu cymeriadau a chynllunio sgript? Mae'r criw cynllunio a sgriptio yn awyddus i gael aelodau newydd, felly os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Ffion Medi.

Tic-Toc - Sesiynau stori, dawns a chân i blant 0-3 oed a'u rhieni - pob bore Gwener am 10yb

Cysylltwch â Ffion Medi neu Lowri Briddon am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r gweithgareddau uchod ar 01570 470697 / ffion.hughes@ceredigion.gov.uk / lowri.bridon@ceredigion.gov.uk

Beth Sy? 'Mlaen yn y Theatr? 26/05/17 - Noson Acwstig yng nghwmni Llew Steffan; 10/06/17 - Noson Acwstig gydag Al Lewis mewn cydweithrediad ag Urdd Gobaith Cymru; 3+4/07/17 - Sioe Cwmni Theatr Arad Goch 'Oes Rhaid I Mi Ddeffro' - i blant 2-8 oed a'u teuluoedd; 15/07/17 - Perfformiad gan Ysgol Ddawns Jane Guy.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacenau
Dathliadau
Partïon*



Bryan a Mavis Beynon, Castle Green

Mae Tafarn Llain y Castell neu'r Castle Green yn Llanbed yn nodedig am fwyd da. Dyma dafarn gartrefol ar Heol y Bryn sydd ond tafliaid carreg o Eglwys San Pedr. Gallwch fwynhau diod hamddenol neu hyd yn oed gêm pŵl neu ddartiau yna, ond ar ddydd Sul fe weinir hyd at gant o brydau blasus mewn carferi. Y cyfan wedi eu paratoi'n fedrus gan Bryan a'i staff, a'r croeso hael a'r sgwrs gynnes gan ei wraig Mavis.

Ym 1980 y dechreuodd y bartneriaeth lwyddiannus hon pan briododd y ddau. Bryan yn wreiddiol o Fydril yn a Mavis o Alltlyblaca, a'r ddau yn priodi am yr ail dro.

Un fer o ran corff, fel ei thad yw Mavis, ond yn llawn bywyd a sgwrs. Mavis Morgan oedd y plentyn ifancaf o wyth o blant, a phriododd Selwyn yn 1977. Ond colodd ei gŵr yn drychinebus mewn damwain yn y gwaith a bu'n amser anodd a thrist arni tan iddi gwrdd â Bryan.

Dyn diymhongar yw Bryan. Y cawr addfwyn. Bu ef yn briod hefyd ac mae ei blant Amanda a Jason yn byw yn Aberteifi yn ogystal â phump o wyron annwyl.

Gadawodd Bryan Ysgol Aberaeron yn bymtheg a hanner. Er mai peiriannydd oedd ei dad a'i frawd, penderfynodd Bryan fynd yn gogydd. Cafodd brentisiaeth fel cogydd yn Evans Caprice yn Aberystwyth a wedyn yn Hen Undeb y Myfyrwyr. Oddi yno aeth ymlaen i hyfforddi ac ennill cymwysterau coginio yng Ngholeg Llandrillo ger Bae Colwyn ac Aberteifi.

Bu'n gweithio am gyfnod yng Ngwesty'r Conrah tra'n hyfforddi a dod o dan ddylanwad y cogydd cyfandirol Pat Smithe. Cofia Bryan y cyngor a gafodd ganddo hyd heddiw i beidio ag ymffrostio a pharhau i ddysgu rhywbeth newydd tan ei ddiwrnod olaf yn y gegin. Ac o hynny ymlaen, cafodd Bryan yrfa ddiddorol iawn.

Er na fu Mavis mewn coleg, bu'n fenyw weithgar iawn erioed. Gofalu am y llyfrau y mae hi, ond nid llyfrau Castle Green yn unig. Bu'n gweithio i Daniel Brothers am gyfnod cyn ymuno â chyfrifdydd yng Nghaerfyrddin.

Ganwyd iddynt ddwy ferch sef Carri ac Angharad a'r ddwy yn byw yn Llanbed o hyd. Gweithio yn Adran Anghenion Arbennig Ysgol Henry Richard y mae Carri ac mae'n briod ag Eifion Heath. Ymfalchïa Bryan a Mavis fod Carri, yn ogystal â'r wyron hoffus Rebecca ac Owen, yn helpu mas yn Castle Green yn aml. Mae Angharad wedi dilyn cwrs newyddiaduraeth ac wedi cymhwyso fel nyrs, ac yn gweithio erbyn hyn yn Ysbyty Glangwili.

Wedi dyfodiad y merched, symudodd Bryan a Mavis o Alltlyblaca i Heddlu yn Stryd Newydd a dechreuodd Mavis weithio i Will NFU ac wedyn gyda'r cwmni yn Nhregaron. Mae'n gweithio pum niwrnod yr wythnos ers blynnyddoedd gyda Chwmni J&E yn Barley Mow, Llanbed gan ofalu ar ôl y cyfrifon. Sut yn y byd y mae'n dod i ben â hynny dywedwch, yn ogystal â rhedeg tafarn lewyrchus?

Ei hateb i hynny yw bod dim rhaid iddi goginio o gwbl gan ei bod yn briod â chogydd. I ddweud y gwir, dyw hi ddim wedi coginio i Bryan erioed, er iddi geisio gwneud paned o de iddo unwaith ond bu hynny'n aflwyddiannus!

Mavis yw clerc Cyngor Cymuned Llanybydder ers bron i ddeng mlynedd ar hugain. Dyna i chi wasanaeth clodwiw. Cyfeirir ati fel Swyddog Ariannol Cyfrifol gan ei bod yn mynd tu hwnt i ddisgwyliadau clerc wrth ofalu am y llyfrau a phrosesu'r ochr ariannol hefyd. Dywed y Cyngorydd Ieuan Davies, "Mae Mavis yn ffantastig. Bydd yn ddiwrnod diflas iawn pan fydd hi'n dibennu. Mae'n gwneud gwaith da."

Er mai gweithio y tu ôl i furiau'r gegin y byddai cogydd yn gwneud fel arfer, mae ochr gymunedol i Bryan hefyd. Ymfalchïa yn llwyddiant y Cyngorydd Dorothy Williams wedi iddi ennill cystadleuaeth goginio S4C yn y blynnyddoedd diwethaf. Mae Dorothy yn adnabyddus am goginio, ond ar gyfer y gystadleuaeth hon, cafodd gymorth gan Bryan i gyfansoddi rysâit arbennig. Dywed Dorothy "Bryan yw'r gore sydd. Alle fe neud pryd o fwyd gwych mas o sgraps. Do's dim ffys na ffair amdano fe ac ma fe'n neud bwyd sy'n ffit i'r Queen."

Mae Bryan yn gyfarwydd i lawer fel cogydd sy'n arbenigo ar rostio mochyn hefyd. Gwelir ef yn rhostio mochyn cyfan ar nosweithiau fel digwyddiadau Nadolig y dref ar y Stryd Fawr neu mewn barbeciwn yn y Clwb Rygbi. Mae'n cynnig y gwasanaeth unigryw hwn i bartïon a digwyddiadau arbennig a hynny mewn lleoliadau gwahanol.

Yn wir, mae Bryan yn gogydd heb ei ail. Bu'n gweithio am dymor fel cogydd goruchwylio mewn gwesty ar Ynys Jersey. Tra'r oedd yno,

cynhaliwyd wyth cystadleuaeth goginio o statws ar yr ynys, a'r beirniad oedd Anton Mosimann, y cogydd a'r cyflwynydd enwog o'r Swistir. O'r wyth cystadleuaeth, enillodd Bryan dair ohonyn nhw, a hynny am ei greadigaethau blasus a'i ddyfeisgarwch wrth baratoi bwyd. Tipyn o gamp!

Ble arall y bu'n gogydd? Treuliodd dair blynedd fel cogydd yn y Cawdor yng Nghastell Newydd Emlyn a chwe blynedd yng Ngwesty'r Glynhebog, Llanbed gan arllwyo ar raddfa foethus ac eang iawn i briodasau a digwyddiadau mawr.

Ond ym 1990 y daeth y cyfle i fentro, a phrynu'r Castle Green. Ac yma y gwelwyd y tîm hudol yn cydweithio. Mavis yn wyneb hapus yn cyfarch y cwsmeriaid ac yn gofalu'n gynnes am eu hanghenion a Bryan yn gogydd profiadol yn paratoi prydau o'r radd flaenaf. Y ddau yn gymeriadau ffein ac yn bobl fusnes craff gan estyn croeso Cymraeg i'w haelwyd.

Doedd dim gorffwys ar eu rhwyfau i fod wedi prynu'r dafarn. Parhaodd Mavis i weithio pum niwrnod yr wythnos yn ogystal â gweithio gyda'r hwyr yn y Castle Green, ac fe aeth y gair ar led bod bwyd da i gael yno a baratoir gan gogydd gwych.

Datblygwyd y gegin i gyd-fynd â rheolau hylendid, ac yn 1993

buddsoddwyd eto drwy brynu'r tŷ drws nesaf, sef Brynmeuog. Llwyddwyd felly i ddatblygu bwyty ehangach a denu cwsmeriaid i drefnu ciniawau, partïon ac achlysuron ar raddfa fwy yno.

Mae rhedeg tafarn yn waith anodd, a'r ddau yn gweithio oriau anghymdeithasol, ond er gwaethaf hynny, gwelir gwên siriol ar wyneb y ddau ar bob adeg yn y Castle Green. Un peth yw gweini'r bwyd a'r diodydd yn y bwyty a'r bar, ond does neb yn gweld y gwaith paratoi manwl a gofalus a wneir o flaen llaw y tu hwnt i lygaid y cyhoedd.

Wrth eu holi am gyfrinach eu llwyddiant dywedodd Mavis ei bod hi'n bwysig prynu cynnyrch yn lleol cymaint ag y gallan nhw. Ac i'r cogydd Bryan, y blas sy'n bwysig wrth baratoi bwyd. Er ei gwên siriol, gall Mavis ei dweud hi heb flewyn ar dafod, ac mae bod yn onest a chadw'r ddisgyl yn wastad rhwng cwsmeriaid y bar yn ddawn gan y ddau.

Cafodd Bryan strôc y llynedd, a oedd yn arwydd iddynt arafu o bosib, ond tra bod y ffôn yn canu a'r cwsmeriaid yn archebu lle i fwyta yn y Castle Green mae Bryan yn parhau i goginio a Mavis yn parhau i weini.

Mae byd y tafarnau yn fyd cystadleuol iawn hefyd a'r Castle Green wedi dal ei thir, lle mae sawl tafarn arall yn lleol ac yn ehangach wedi methu. Mae'r cyfuniad llwyddiannus o arbenigedd y cogydd medrus a thrylwyredd y clerc trefnus, yn ogystal â gweithgarwch aelodau'r teulu a'r staff, yn gweithio'n dda. Does dim rhyfedd felly, bod 100 o bobl yn bwyta cinio dydd Sul yno yn wythnosol a bod y Castle Green yn rhif un gan Tripadvisor fel bwyty yn Llanbed ers 2012.

TY CWM NURSERY

Penffordd, Llanwenog,
SA40 9XE

Ar Agor o Ddydd Mawrth i
Ddydd Sul 10yp – 6yp
Amrywiaeth o blanhigion ar gael
yn cynnwys: planhigion
lluosflwydd, llwyni, perlysiâu a
phlanhigion blynyddol.

Am rhagor o fanylion ewch i
facebook neu ffoniwch
01570 480655
tycwmnursery.co.uk

Gwasanaethau Coed Llamed



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llamed, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
**1 Sgwâr Harford,
Llamed**
01570 422206 01570423540

Troi'n Brummies er mwyn dysgu gwersi

Roedd yna nifer o bobol o ardal Clonc yn rhan o berfformiad 'rhyngwladol' y diwrnod o'r blaen, wrth i Undodiaid y Smotyn Du helpu cynnal seremoni agoriadol cyfarfod blynyddol yr enwad yn Birmingham.

Roedd rhai o Undodiaid de-ddwyrain Cymru hefyd yn cymryd rhan mewn cyflwyniad mewn gair a chân yn sôn i ddechrau am rai o straeon mawr yr Undodiaid Cymreig ac wedyn yn troi sylw at heddiw.

Doedd yna neb yn siŵr sut y byddai pethau'n mynd a ninnau heb gael ymarfer o'r cast i gyd nes ein bod yn cyrraedd y gwesty mawr dienaidd ar gyrion Birmingham, o fewn tafliaid carreg go lew i adeilad anferth yr NEC.

Fel y digwyddodd hi, doedd dim angen poeni. Roedd y cynrychiolwyr o Loegr a'r Alban wrth eu bodd gyda'r actio a'r canu a'r cyflwyniad ar ffilm oedd yn digwydd y tu cefn i'r perfformiad. Ac, o hynny, roedd yna dair gwers syml i'w dysgu.

Yn gynta', mae yna werth yn yr holl fusnes o gymryd rhan yn gyhoeddus, boed mewn eisteddfod neu gapel, neu trwy fudiad fel y Ffermwyr Ifanc. Efallai fod y cystadlu weithiau'n mynd yn rhy bell, ond mae'r profiad o gymryd rhan yn werthfawr.

Roedd y rhan fwy o'r gynulleidfa yn credu ein bod ni i gyd wedi bod yn ymarfer am wythnosau, heb wybod am allu'r Cymry i lwyfannu mewn chwinciad chwannen. A hynny am ein bod, yn ein dŵr, yn gwybod am y berthynas rhwng perfformiwr a chynulleidfa.

Roedd yr ail wers yn bwysicach ac yn un benodol i ni ... gwers am rym y straeon sy'n rhan o'n hanes ni. Y peryg ydi ein bod ni'n eu cymryd nhw'n ganiataol ond, yn Birmingham, roedd digwyddiadau ganrif a hanner a mwy yn ôl yn dal i godi emosiwn.

Mi wnaethon ni sôn am Iolo Morganwg – a gerfiodd y garreg i nodi agor Capel y Groes, er enghraifft – ac am academi Dafydd Dafis Castell Hywel; am ddewrder Tomos Glyn Cothi o Gwernogle ac, wrth gwrs, am yr Undodiaid yn cael eu troi allan o gapel Llwynrhydowen.

A ninnau ynghanol ymgyrch Etholiad Cyffredinol, mae'n werth cofio y bydd y flwyddyn nesa'n nodi 150 o flynyddoedd ers y digwyddiad a arweiniodd at hynny – etholiad mawr 1868, pan bleidleisiodd pobol Ceredigion yn agored yn erbyn eu meistri tir Torïaidd.

Gyda Henry Richard, Tregaron yn amlwg, roedd y canlyniadau, pan gafodd teuluoedd eu troi o'u ffermydd, yn rhan o'r sbardun i sicrhau pleidlais gudd – sefydlu'r 'secret ballot'.

Yn Birmingham, roedd pobol wedi'u taro gan y straeon yma, yn edmygu dewrder ein cyndadau ni ac yn rhyfeddu at eu dycnwlch nhw'n wynebu anghyfiawnder a chaledi. Maen nhw'n straeon y dylen ninnau wneud mwy i'w cadw nhw'n fyw.

Ond mae hynny hefyd yn arwain at y drydedd wers ... dydi'r angen am ymladd anghyfiawnder ddim ar ben. Mae yna fersiynau modern o bron bob un o'r mathau o annhegwch yr oedd yr hen Undodiaid – ac eraill – yn ymladd yn eu herbyn.

Mae yna gaethwasiaeth heddiw a phobol yn cael eu prynu a'u gwerthu a'u gorfodi i weithio a gwasanaethu'n rhywiol; mae yna ryfeloedd creulon o hyd, mae yna angen mawr o hyd i ymgyrchu tros yr iaith Gymraeg ac mae yna gwmnïau mawr sy'n ymddwyn yn hynod o debyg i'r hen landlordiaid slawer dydd.

Mi wnaethon ni hefyd sôn am Gymru, wrth sôn am Jacob Dafis, un o weinidogion mwya'r Smotyn Du, a hynny yn ardal Clonc. Mae ei eiriau ef ar y dôn Ffinlandia'n cynnig gweledigaeth mwy agored ac eang na geiriau mwy enwog – a chyfyng – Lewis Valentine.

Yn syml, neges y geiriau ydi ein bod ni'n caru ein gwlad, a thrwy hynny yn caru'r byd ac mae'n neges bwysicach nag erioed ynghanol y cecru am adael yr Undeb Ewropeaidd, am dorri ar gymorth i wledydd anghenus y byd ac am wrthod gwneud ein rhan i helpu ffoaduriaid.

I Undodiaid ardal Clonc, roedd yna bedwaredd gwers – fod yna werth go iawn o hyd i'r math o syniadau yr yden ni'n eu caru.



Pryd Tymhorol Mis Mai

Hyfryd yw medru rhannu â chwi rai o'r rysetiau rwyf wrth fy modd yn eu paratoi, a'u gweini ym mis Mai. Maent yn cwmpasu'r byd mewn tri chwrs. Medrwech baratoi ymlaen llaw, felly'n gadael digon o amser i chi fwynhau gyda'r teulu neu westeion.

Dechreuwyd moethus a thymhorol, gweddnewidiad i'r Cig Cinio Dydd Sul fel prif gwrs, a phwdin ffres hyfryd.

Mwynhewch mwynder Mis Mai

Hwyl, **Gareth**

Brigau Merllys ac Eog (digon i 6)

12 coes merllys (asparagus)	2 llwy fwrdd basil
200 g eog wedi'i fygu	1 lemwn
100 g caws hufennog	1 pecyn o ddail roced

Dull

1. Coginiwch y merllys am tua 5-7 munud, nes eu bod yn dyner. Draeniwch ac oerwch mewn dŵr oer.
2. Cymysgwch y caws hufennog, basil a sudd y lemwn
3. Gwasgarwch dros yr haenau eog, a rholiwch y cyfan o amgylch y 12 merllys yn unigol.
4. Hanerwch a gweinwch ar wely o roced, â darn o lemwn.

Cyw Iâr sbeis a sglein

1 cyw iâr	1 winwnsyn
1 chilli coch	darn o sinsir ffres
1 llwy de o bowdwr allspice	3 llwy fwrdd o finegr gwin coch
3 llwy fwrdd o Saws Soy	1 llwy fwrdd o siwgr brown tywyll
3 llwy fwrdd o sudd pinafal o dun	

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180 C / 350 F / Nwy 4. Gosodwch y cyw iâr mewn tun rhostio am tua 30 munud.
2. Torrwch y winwnsyn a'r chilli (heb yr hadau) yn y prosesydd bwyd, a 3 llwy fwrdd o sudd pinafal. Malwch nes ei fod yn bast.
3. Dewch â'r cig o'r ffwrn, a gwaredwch y braster; gorchuddiwch â'r past. Coginiwch am ¾ awr.
4. Gweinwch ar wely o reis, wedi ei flasau â phys a darnau pinafal.

Cacen Caws Siocled ac Oren

150 g bisgedi brau (shortbread)	50 g menyng
1 oren	250 g siocled gwyn
400 g caws medal	2 wy
142 ml hufen sur	1 llwy de fanila

Dull

1. Trowch y ffwrn i 150 C / 300 F / Nwy 2
2. Toddwch y menyng; malwch y bisgedi, a chymysgwch y cyfan â chroen yr oren (wedi gratio). Gwasgwch i waelod tun 8 modfedd ar draws.
3. Toddwch y siocled, ac oerwch.
4. Cymysgwch y caws, wyau, hufen, fanila, ac yna ychwanegwch y siocled. Arllwyswch dros y crwst. Pobwch am tua 50 munud. Gadewch i oeri.
5. Gweinwch gyda riwbob wedi ei stiwiio.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	5		4			1
2	1		3			5
7						
	8		3			
3		9	2		5	6
				7		8
						2
	7		1		6	8
6			5		9	

Swdocw Ebrill:

- I Llongyfarchiadau i
- I Christina Morgans,
- I Blaenfallen, Talsarn, a
- I diolch i bawb arall am
- I gystadlu: Gwendoline
- I Jones, Prospect
- I House, Llanybydder;
- I Wendy Davies, Swn
- I y Nant, Felinfach;
- I Glenys Davies, Gelli
- I Aur, Llanybydder;
- I Bethan Williams,
- I Neuadd Fryn,
- I Llanybydder a Rob Phillips
- I Llety Clyd, Llanbed.

2	1	5	3	7	6	8	9	4
4	6	9	5	2	8	7	3	1
3	8	7	1	4	9	6	2	5
6	9	8	4	1	2	5	7	3
1	5	3	8	9	7	2	4	6
7	4	2	6	5	3	1	8	9
5	3	1	7	8	4	9	6	2
9	7	4	2	6	5	3	1	8
8	2	6	9	3	1	4	5	7

C.Ff.I. Ceredigion

Mae yna fis hynod o brysur arall wedi mynd heibio yng nghalendr C.Ff.I. Ceredigion gydag amryw gystadlaethau a digwyddiadau wedi cael eu cynnal.

Cynhaliwyd Cwis Iau'r Sir i'r aelodau 18 oed a iau ar y Nos Lun, 27ain o Fawrth, gyda chlybiau'r de yn cystadlu yn Neuadd Pontsian a chlybiau'r gogledd yn Neuadd y Jiwibili, Llangeitho. Fe gystadlodd 14 o dimau gyda thîm C.Ff.I. Felinfach yn dod i'r brig.

Aeth enillwyr y Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg y Sir ymlaen i gystadlu ar lefel Cymru yn Llanellwedd ar y 1af o Ebrill. Dyma'r canlyniadau:

Siarad Cyhoeddus Cymraeg: Darllen Dan 14 – Cydradd 3ydd; Seiat Holi Dan 21 – 1af; Dadl Dan 26 – 2il gyda Cennydd Jones, Pontsian yn ennill y siaradwr gorau. Llongyfarchiadau i'r tîm dan 16 am gystadlu hefyd. Canlyniad Terfynol - 3ydd

Siarad Cyhoeddus Saesneg: Seiat Holi Dan 21 – 3ydd; After Dinner Speaking Dan 26 - 2il gyda Cennydd Jones, Pontsian yn ennill y siaradwr gorau. Llongyfarchiadau i'r timau dan 14 a dan 16 am gystadlu hefyd. Canlyniad Terfynol - 3ydd. Ymgeisio am Swydd - 1af Eiry Williams, Llangwryfon; Seiat Sillafu - 1af Alwen Morris, Llangwryfon

Cynhaliwyd Gala Nofio'r Sir ym Mhwl Nofio Aberaeron ar y 7fed o Ebrill. Daeth C.Ff.I. Felinfach i'r brig am y pumed flwyddyn yn olynol a C.Ff.I. Pontsian yn cyrraedd yr 2il safle. Enillodd Ifan Davies, C.Ff.I. Felinfach nofiwr cyflyma'r noson.



Dyma lun o glwb Felinfach a ddaeth i'r brig.

I ddathlu CFfI Ceredigion yn troi'n 75 oed trefnwyd sialens i feicio 75 milltir. Rhannwyd y 75 milltir i dair rhan ar gyfer clybiau tri phegwn y sir sef y Gogledd, Canol a De. Cynhaliwyd y Daith Feicio ar y 8fed o Ebrill ar ddiwrnod braf o wanwyn. Trwy gydol y daith ymunodd dros 140 o aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau yn y beicio, boed yr holl ffordd neu am rannau o'r daith. Ymunodd enwogion â ni ar ein taith hefyd sef John Davies, Deiniol Jones, Geraint Lloyd a Dai Jones.

Roedd criw y Gogledd yn beicio o Dalybont i

Aberaeron, criw'r canolbarth o Dregaron i Aberaeron a chriw'r De o Aberteifi i Aberaeron. Bwriad y sialens oedd codi arian ar gyfer Beiciau Gwaed Cymru a C.Ff.I. Ceredigion.

I gloi'r noson, trefnwyd Rasys Defaid yng Nghlwb Rygbi Aberaeron, lle cafwyd noson fyrlymus yn cymdeithasu ac yn betio ar ambell ddafad yn y rasys. Bu'r diwrnod yn un llwyddiannus tu hwnt, gyda phawb yn mwynhau yng nghwmni ei gilydd. Y swm a godwyd tuag at y ddwy elusen hyd yma yw £6,500, ond rydym yn dal i gyfri, felly fe ddown ni â'r swm terfynol i chi yn adroddiad mis nesaf.

Carem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb am bob cymorth a gafwyd ar gyfer y digwyddiad. Diolch i'r holl stiwardiaid yn aelodau ac yn arweinyddion; gyrwyr; criw'r Beiciau Gwaed, noddwyr (boed yn ariannol neu drwy roi offer), cogyddion; perchnogion a chriw'r rasys defaid; Clwb Rygbi Aberaeron; manau stopio ar hyd y daith ac i'r holl gefnogwyr ar draws y Sir a ddaeth allan i'n cefnogi.



Dyma lun un o'r grwpiau cyn iddynt ddechrau ar eu taith.

Bu nifer o aelodau a ffrindiau dros 18 y mudiad yn dathlu'r Pasg yn Sul Hwylus y Pasg CFfI Ceredigion yng Nghlwb Rygbi Llanbedd. Cafwyd prynhawn a noson llawn hwyl a sbri yng nghwmni DJ Bry.

Dyddiadau i'ch dyddiadur: 03 Mai - Hyfforddiant Stoc Barnu Cobiau Cymreig yn Tyngwndwn am 7.30 y.h. 10 Mai - Hyfforddiant Trin Gwlân yn Tynant, Talybont am 7.30 y.h. 13 Mai - Chwaraeon y Sir, Llanbedd; 20 Mai - Saethu Colomennod Clai yn Dolebolion, Pontrhydfendigaid; 03 Mehefin - Rali'r Sir a'r Fferm Dolyrychain a Dawns y Rali ar Fferm Caebwd; 04 Mehefin - Gymanfa'r Rali yng Nghapel Bwlchgwynt, Tregaron am 7.30 y.h. 16 Mehefin - Rygbi 7 bob ochr

Clwb 200 Ebrill: 1af: Emyr a Caryl Haf Jones, Caeronnen, Llanddewi Brefi; 2il: - Ann Jones, d/o Maesronw, Bangor Teifi, Llandysul; 3ydd: Dai a Gwen Davies, Gwarffynnon, Silian, Llanbedr Pont Steffan.

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llamed

☎01570 423135
☎07811917799 /
07968821035

✉mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed Teifi

Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr-coed, ffensio
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog.
Penffordd.
Llangybydder.
Ceredigion.
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Partner Rheoli Cyfoeth

01239 613746

07816 923618

Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.

Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymddeol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi

Am gyngor ariannol annibynol

Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad

Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT

07816 923618 ☎ 01239 613746

richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpllp.co.uk

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini cysurus
Clwb Rygbi Llanbedd yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

*Bwydlenni unigol i ateb eich
gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*

Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Peiriant
Rhostio
Mochyn
ar gael

Llangybi a Betws

Ysgol Y Dderi

Cafwyd diwrnod arbennig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant gyda'r plant wedi gwisgo'n draddodiadol ar gyfer ein heisteddfod ysgol. Wedi rhagbrofion lle gwelwyd yr ysgol gyfan yn cymryd y cyfle i berfformio'n unigol, dyma ni'n cael cystadlu brwd ar y dydd. Teifi ddaeth i'r brig eleni, llongyfarchiadau mawr iddynt hwy. Llongyfarchiadau hefyd i Martha Haf Thomas am ennill y gadair gyda'i cherdd buddugol am dechnoleg, i Alaw Jones am ennill y darian am y pwyntiau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen, i Briar Miller am ennill y darian i Gyfnod Allweddol 2 ac i Betrys Llwyd Dafydd am ennill y cwpan ar gyfer y gantores mwyaf addawol. Diolch o galon i Elliwyd Dafydd am ei gwaith yn beirniadu yr holl gystadlaethau yn ystod y dydd. Diolch hefyd i Mrs Sue ein cogyddes am baratoi cawl blasus i bawb.

Dathlwyd Diwrnod y Llyfr yn yr ysgol gyda phob plentyn yn cael y cyfle i fwynhau eu hoff straeon. Diolch i gwmni Mewn Cymeriad am ddod â'r sioe un dyn am fywyd a gwaith yr Esgob William Morgan atom ni. Cafwyd perfformiad gwefreiddiol a'r cyfle i ddysgu am fywyd William Morgan a'r llyfr mwyaf dylanwadol yn hanes yr iaith Gymraeg.

Bu cystadlu o safon uchel iawn yng nghystadleuaeth Cogurdd gyda 33 o ysgolion yn cymryd rhan. Llongyfarchiadau i Martha Haf Thomas am lwyddo i ddod yn 4ydd. Diolch i Miss Jen am ei dysgu ac am redeg clwb coginio i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn wythnosol.

'Sŵ Bach' yw thema'r Cyfnod Sylfaen yr hanner tymor yma. I ddechrau'r gwaith cafwyd ymweliad gan 'Zoolab' a ddaeth ag anifeiliaid anwes anghyffredin i ddangos i'r plant megis neidr, malwoden fawr o'r Affrig a llygoden ffyrnig wen! Dysgwyd am natur yr anifeiliaid yma a sut i ofalu amdanynt. Daeth Miss Delun a'i chath i ymweld â'r plant bach, ac mae ymwelydd arbennig wedi bod ar ei wyliau yn nosbarth Miss Caryl sef Guto'r



geco! Roedd y plant wrth eu boddau!

Daeth Philip Curnow o gwmni 'Picture Train' i'r ysgol i gynnal sesiwn awyrenneg gyda disgyblion blwyddyn 3 a 4 sy'n astudio thema 'Awyr beirianwyr' yn ystod yr hanner tymor yma. Buon ni'n dysgu pob math o bethau am hedfan a'r gofod ac yn mireinio ein sgiliau adeiladu awyrennau papur. Am hwyll! Hefyd, cafwyd bore diddorol iawn yng nghwmni Mrs Ann yn trafod ei hymweliad â NASA yn yr UDA. Diddorol iawn oedd cael bore gydag Adar Ysglyfaethus Cymru. Roedd cael y cyfle i ddal yr adar hynod yma yn brofiad bythgofiadwy.

Cafwyd llawer o hwyl wrth i bob dosbarth cymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddo mathemateg. Roedd tasg arbennig gan bob dosbarth ac roedd angen iddynt ddod â gwrthrych i'r ysgol. Bu disgyblion y Meithrin a'r Derbyn yn mesur y tywel mwyaf, Blwyddyn 1 a 2 yn mesur y genhinen hiraf, Blwyddyn 3 a 4 yn pwyso'r llyfr trymaf a blwyddyn 5 a 6 yn mesur capasiti'r botel fwyaf. Llongyfarchiadau i bawb wnaeth ennill eu cystadlaethau. Daeth sioe 'Mewn Cymeriad' Robert Recorde i osod posau mathemategol i'w datrys i Gyfnod Allweddol 2. Robert Recorde oedd y Cymro a ddyfeisiodd yr arwydd hafal.



Teithiodd Hugo, Jorge, Moses, Martha Haf, Ffion a Dilys, sef 6 o ddisgyblion blwyddyn 6 gyda Mrs Ann a Mr Dylan i Gjerstad yn Norwy fel rhan o brosiect Erasmus. Y thema y tro yma oedd gwyddoniaeth. Dangosodd ein plant ni arbrofion amrywiol i weddill ein ffrindiau Ewropeaidd mewn ffair wyddonol. Mwynhad pur oedd cael mwynhau

arbrofion o wledydd eraill a chael y cyfle i rannu rhain nôl gyda'n ffrindiau yn Ysgol Y Dderi. Dathlwyd diwrnod mathemateg y byd tra roedden yno a diddorol iawn oedd nodi mai man geni y mathemategydd enwog Niels Henrik Abel oedd Gjerstad; fe ddyfeisiodd y symbol anfeidredd. Cawsom gyfle hefyd i sgïo, sglefrïo a slejio ac wrth gwrs, gwneud ffrindiau oes.

Cafwyd hwyl arbennig ar y cystadlu yn yr Eisteddfod gylch eleni gyda'r ysgol yn cipio 10 cyntaf, 2 ail a 2 trydydd! Ym Mhafiliwn Bont, cafwyd hwyl arbennig eto gyda'r ysgol yn ennill 2 wobwr gyntaf a phedair ail wobwr. Pob lwc i Gruffydd, Lili, Steffan a Martha Haf ym Mhen-y-Bonr ar Ogwr yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



'Bant a'i phen' oedd thema blwyddyn 5 a 6 yn ystod yr hanner tymor yma a chafwyd diwrnod gwefreiddiol ar ein Diwrnod Tuduraidd. Roedd pawb wedi gwisgo i fyny a'r neuadd wedi ei osod fel llys barn o'r cyfnod. Bu'r plant yn ail-greu erlyniad Ann Boleyn a chafwyd diwrnod gwych. Bu Harri Tudur o gwmni Mewn Cymeriad yn diddanu'r plant gyda sioe fywgraffiadol gampus. Roedd y sioe yn un rhyngweithiol ac yn llawn hiwmor. Ffordd bendigedig o ddod â hanes yn fyw.

Diolch i Siân Elin o Urdd Gobaith Cymru am gynnal sesiynau atal bwlio yn yr ysgol gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 2. Roedd y gweithdai yn ddiddorol ac effeithiol iawn wrth gyfleu neges holl bwysig.

Daeth David Edge a Branwen Myles o Gwmni Calon Wen i'r ysgol i gynnal gwasanaeth arbennig er mwyn cyflwyno Andrew Davies o flwyddyn 4 â llun arbennig a thocynnau i ymweld â Fferm Folly. Enillodd Andrew gystadleuaeth cenedlaethol i gynllunio label ar gyfer potel laeth 2L Calon Wen. Bydd y labeli yn ymddangos yn y siopau cyn hir!

Bu bechgyn blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth rygbi TAG yr Urdd yn ddiweddar yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Ennill a cholli gemau oedd hanes y tîm, a chawson nhw ddiwrnod llawn hwyl.

Diolch i'r holl gymuned am ddod ynghyd i fwynhau noson o Gawl a Chân yr ysgol. Bu'r staff yn ddiwyd yn paratoi y neuadd a'r bwyd, a bu'r plant yn diddanu'r gynulleidfa gydag eitemau o'r Eisteddfodau diweddar. Gweinwyd y bwyd gan y staff hefyd a diolch i'r holl noddwyr am ddarparu cynhwysion y wledd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu y diweddar Mr Tommy Davies, Tynrhos yn eu profedigaeth frawychus o sydyn a ddigwyddodd ar nos Sul y Blodau. Cydymdeimlir hefyd â'i gymdogion a'i ffrindiau niferus. Bu'r angladd yn Nghapel Maesffynnon ac yna yn Amlwgfa Aberystwyth ar Ebrill 20fed. Rhoddir y llwch ym meddrod ei rieni yn mynwent Ebeneser.

Penillion o waith Doreen Lewis er cof am Tommy Davies, Tynrhos.

TOMI

Rodd Tomi o'r tope'n gymeriad o fri	Ffrind da 'Farmer's Friend' a'i ddefnydd dir
A neb iddo'n debyg drwy'r byd – am wn i	I drwsio bwt car, neu gloi drws y tŷ
A cap ar i dop e, trafaela drwy'r fro	Bu'n codi carrots a sweden o'r bron
Yn galw i gloncan da pawb yn eu tro.	Ai gwerthu ymhobman i hwn a hon.

Doedd neb â gair drwg amdano i ddweud	Deallodd brydferthwch y blode a'r dail
A choda ei law ar bob un a gweud –	Plannodd mewn cloddie, lu blode yn hael
'Howdi Missus, shwt mae pethe'n mynd?'	Sylwai ar natur ai rhyfeddode
Ie dyna odd Tomi – i bawb yn hen ffrind.	Fe'i galwyd adre ar Sul y Blode.

Fe fuodd yn ifanc ar long ar y môr,	Tawel yw'r tractor, a'r aelwyd yn llwm,
Yn hwylio i wledydd yn dwym ac yn o'r	Tawel yw'r hewl o Dŷ Rhos i Blaencwm,
Yn ôl i Dŷ Rhos ar alwad y tir	A heddi mae'r ardal i gyd yn fwy tlawd
Ac yno bu'n ffermio am flynyddoedd hir.	Wrth inni ffarwelio â Tomi – rhen frawd.

Llangybi

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Tommy Davies, Tynrhos ddiolch i bawb am bob gweithred o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth lem. Diolch yn arbennig i'r Parch Stephen Morgan am drefnu y gwasanaeth angladd urddasol ac i Mr Tom Eurfyl Jones y trefnydd am ei drefniadau trylwyr, i swyddogion yr Amlosgfa ac i weithwyr Llety Parc, i'w gymdogion caredig a chymwynasgar. Gwerthfawrogwn gyfraniad pawb ar yr achlysur trist yma gan gynnwys y rhoddion tuag at y Defibrillator a phenillion arbennig Doreen Lewis.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theuluoedd Mr Geoffrey Hicks, Pwllglas gynt a Mr Richard Hicks, Llwynfawydden, Betws Bledrws yn eu profedigaeth lem ar farwolaeth eu chwaer yn ddiweddar. Cydymdeimlir hefyd â holl gysylltiadau teuluol a ffrindiau eraill yn eu hiraeth.

Merched y Wawr

Croesawyd pawb i'r cyfarfod agored yma gan y llywydd Gwyneth Jones. Treuliwyd orig ddifyr iawn yng nghwmni y Parch a Mrs Carwyn Arthur. Bu ef yn sôn am fywyd Patagonia heddiw trwy gyfrwng lluniau. Er mai caled iawn oedd hi ar y mewnfwydwr cyntaf nôl yn 1865 mae'r dalaith heddiw yn bur lewyrchus a chyfran fechan o'r boblogaeth yn medru siarad yr iaith Gymraeg er mai Sbaeneg yw'r brif iaith. Mae yna draddodiadau Gymreig yn parhau yno fel eisteddfodau, cyrddau diolchgarwch a the prynhawn. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch am noson hanesyddol, addysgiadol a lliwgar i'r gwesteion gan Mair Spate.

Ail etholwyd y swyddogion sef Gwyneth Jones, Llywydd; Mary Jones, Trysoryddes a Mair Spate fel Ysgrifenyddes. Derbyniwyd gwahoddiad i ymuno â changen Llambled. Ni fydd cyfarfod ym mis Mai. Bydd ein cyfarfod nesaf ar Fehefin 21ain pryd y bwriedir ymweld â Chanolfan Rhiannon a'r barcud yn Nhregaron.

Rhoddwyd y Raffl gan Mary Jones ac fe'i henillwyd gan Odwyn Davies a Gwyneth Evans. I ddiweddu y cyfarfod cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei rhoddi gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis.

Hamdden

Ar brynhawn Gwener ardderchog aeth yr aelodau a'u ffrindiau ar daith ddirgel mewn bws wedi ei drefnu gan y trysorydd, nad oedd nepell o garreg ein drws sef Ysgol Carreg Hirfaen yng Nghwmmann. Bu grŵp o blant talentog yn diddanu yr ymwelwyr am ysbaid cyn cael te prynhawn bendigedig. Wedyn cafwyd ymweld â'r ysgol newydd fodern a gweld yr holl adnoddau technegol diweddaraf sydd ar gael mewn addysg heddiw – mor wahanol i'n dyddiau ysgol ni! Rhoddwyd pleidlais o ddiolch am yr adloniant, yr ymborth a'r hanes gan Rita Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 5ed yn Ysgol Y Dderi am 2 y prynhawn pryd y disgwylir Diana Williams i sôn am "Nam ar y Llygaid". Dewch ag awgrymiadau i raglen y tymor nesaf gennych. Bydd y trip blynyddol yn ymweld â Gwarchodfa Adar yn Pencynnor ger Llanelli ar Fehefin 2il.

Eisteddfod Capel y Groes

Lluniau ar dudalen 24.

Yn draddodiadol ar ddydd Mercher sy'n dilyn y Pasg cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Capel y Groes, Llanwnnen. Doedd eleni ddim yn eithriad pan gynhaliwyd Eisteddfod safonol iawn gyda bron 12 awr o gystadlu di-dor yn ystod y dydd.

Beiriniad y dydd oedd: Cerdd – Rhiannon Lewis, Cenarth. Llên a Llefaru – Beti Griffiths, Llanilar. Celf – Aled a Heledd Dafis, Caerwedros. Y cyfeilydd eleni eto oedd Lynne James, o Gastell Newydd Emlyn.

Cadeirydd yr Eisteddfod sef Manon Richards gyflwynodd Llywydd yr Eisteddfod sef Elin Jones, Newlands, Heol Ogwr, Ogwr. Mae Elin wedi symud o'r ardal ers bron i hanner can mlynedd, ond mae'n parhau yn aelod yng Nghapel y Groes. Cafwyd ganddi araith bwrpasol a rhodd hael iawn tuag at yr achos. Cyflwynodd Manon fased hardd o flodau yn rhodd i Elin ar ran pwyllgor yr Eisteddfod.

Dyma enwau enillwyr y dydd: Cyfyngedig - Canu dan 8 oed – Fflur Morgan, Drefach. Adrodd dan 8 oed – Tirion Tomos, Pencarreg. Canu 8 oed tan gadael ysgol gynradd – Ifan Meredith, Llanbed. Adrodd 8 oed tan gadael ysgol gynradd – Swyn Tomos, Pencarreg. Agored Unawd ac Adrodd dan 6 oed – Delun Ebenezer, Cellan. Unawd ac Adrodd 6 – 8 oed – Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd. Unawd ac Adrodd 8 – 10 oed – Peredur Llywelyn, Llandysul. Unawd 10 – 12 oed – Zara Evans, Tregaron. Adrodd 10 – 12 oed – Glesni Morris, Llangwryfon. Canu Emyr dan 12 – Alwena Owen, Llanllwni. Parti Canu i Ysgolion Cynradd neu Ysgolion Sul – Ysgol Cwrtnewydd. Parti Cydadrodd i Ysgolion Cynradd neu Ysgolion Sul – Ysgol Bro Pedr. Unawd ar unrhyw Offeryn Cerdd gan gynnwys y piano dan 12 oed – Ffion Davies, Llanybydder. Canu Emyr 12 – 16 oed – Elin Fflur Jones, San Clêr. Darllen o'r Ysgrifur dan 16 oed – Elin Fflur Jones, San Clêr. Penillion dan 16 oed – Hanna Medi Davies, Gwyddgrug. Unawd 12 – 16 oed – Sara Elan Jones, Cwmmann. Adrodd 12 – 16 oed – Hanna Medi Davies, Gwyddgrug. Deuawd dan 16 oed – Sioned ac Elan. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd [gan gynnwys y piano] 12 – 16 oed – Sara Elan Jones, Cwmmann. Unawd 16 – 21 oed – Sioned Howells, New Inn. Adrodd 16 – 21 oed – Gwenllian Llwyd, Talgarreg. Ensemble Lleisiol 10 – 26 oed – Parti'r Gors. Sgen ti Dalent – Cydradd gyntaf – Parti'r Gors ac Heledd a Gwenllian Llwyd, Talgarreg. Canu Emyr Agored – Gwennan Jones, Llanbed. Her Adroddiad dros 21 oed – Cydradd gyntaf – Enfys Davies, Llanddewi Brefi a Heledd Llwyd, Talgarreg. Unawd allan o unrhyw Sioe Gerdd – Gwenllian Llwyd, Talgarreg. Her Unawd dros 21 oed – Gwennan Jones, Llanbed. Llenyddiaeth - Cadair i rai o dan 21 oed [rhoddedig gan Gwyn a Heddwyn Jones, Llwynbedw, Alltlyblaca] – Llion Thomas, Llanbedr Pont Steffan. Stori neu gerdd dan 16 oed – Hanna Medi Davies, Gwyddgrug; Barddoniaeth neu Stori – Cyfnod Sylfaen – Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd; Barddoniaeth neu Stori CA2 – Elen Morgan, Drefach; Cân ysgafn neu ddychan – Mary Morgan, Llanrhystud; Cerdd ar fydr ac odl – Mary Morgan, Llanrhystud; Ysgrif neu Draethawd – Carys Briddon, Tre'r Ddôl; Bawddeg yn defnyddio enw unrhyw wlad – Carys Briddon, Tre'r Ddôl; Limrig – Mary Morgan, Llanrhystud; Brysneiges neu neges Trydar – Megan Richards, Aberaeron; Hysbyseb – Mary Morgan, Llanrhystud.



Basgedi CA2 - Cyflwynwyd cystadlaethau Celf eleni am y tro cyntaf yn yr Eisteddfod a braf oedd gweld 34 o fasedi Pasg wedi cystadlu! Basged Basg Cyfnod Sylfaen – Scott Hollinshead, Ysgol Henry Richard; Collage o'r Gwanwyn Cyfnod Sylfaen – Mali Jones, Ysgol Henry Richard; Basged Basg CA2 – Madi Potter, Ysgol Llanwenog; Collage o'r Gwanwyn CA2 – Elen Morgan, Ysgol Llanwenog.

Diolch i bawb am gefnogi'r eisteddfod eleni eto ac yn arbennig i'r noddwyr am eu rhoddion ariannol tuag at y diwrnod. Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth ddod i gystadlu eleni a gobeithio y gwelwn ni chi eto y flwyddyn nesaf!

Cefn Hafo



Cyri bob nos Wener,
£6 y pen

Prydiau bwyd ar gael drwy'r
wythnos

Nos Lun – Nos Sadwrn

Bwyd Cartref a Chwrrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238



Masnachwyr Amachyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr,
Llanbed

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Drefach a Llanwenog

Eglwys Santes Gwenog

Daeth nifer o'r aelodau, pherthnasau a ffrindiau i Wasanaeth Sul y Pasg i ddathlu'r gobaith a'r gorfoledd wedi Gwener y Groglith. Addurnwyd yr Eglwys yn hyfryd â blodau'r Gwanwyn gan wragedd yr Allor, y gosodiadau'n creu awyrgylch o fawl a moliant.

Diolch i'r Parch. Suzy Bale am ei harweiniad yn y gwasanaeth arbennig, a diolch i Mr a Mrs David Rees, Llysdolau am eu rhodd o wyau Pasg i'r gynulleidfa.

Cofiwn amdanynt, a phawb arall sy'n anhwylyd, gan ddymuno gwellhad buan iddynt. Yr un modd, cofiwn am bawb sydd mewn galar.

Clwb Cant Mis Mawrth: 1. Osian Davies, Fronheulog, Cwmsychbant; 2. Stephen Mellor, Rhiwson-isaf; 3. Viria Jones, Gellideg.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth mis Ebrill â'r cyntaf o deithiau'r Haf yn ei gwmni. Trefnwyd y daith hon gan Brenda Jones a Sulwen Lloyd, Cwrtnewydd, a diolch iddynt am ddiwrnod hyfryd.

Wedi aros am baned ym Mhontsenni, aed ymlaen i gyfeiriad Merthyr Tydfil, lle daeth hanesydd lleol i gwrdd â'r bws, a theithio gyda ni, gan roi hanes yr ardal gyfan. Ymwelwyd ag Aberfan yn gyntaf, i gofio am y drychineb ofnadwy a darodd y gymuned yno ychydig dros 50 mlynedd yn ôl, gan weld yr ardd goffa lle'r oedd yr ysgol, a'r mynwent ar y bryn gerllaw.

Aeth ein tywysydd â ni dros 'Dowlais Top', gan weld y gwaith glo brig, a phwyntio allan lle'r oedd yr hen weithfeydd haearn, y rheilffyrdd, hanes injan Trevithick, ayyb cyn cyrraedd Canolfan Soar, sef y Capel sydd wedi dod yn galon i'r gymuned Gymraeg yn ardal Merthyr. Cynhelir nifer o weithgareddau yno yn ystod yr wythnos; mae yno gaffi hyfryd, a llofft y capel wedi ei droi'n neuadd gyngerdd neu'n theatr i gynnal cyflwyniadau.

Ymweld wedyn â Chastell Cyfarthfa, a'r Amgueddfa yno eto'n ein hatgoffa o'r Diwydiant Haearn â fu'n rhoi gwaith i miloedd ar un adeg.

Diolchwyd yn gynnes i Mr Dyfrig Morgan am ei gwmni hynaws, a'r holl wybodaeth a wnaeth ei drosglwyddo mor hwylus i ni.

Aros ar y ffordd adre yng Ngwesty'r Castell, Llanymddyfri am bryd o fwyd blasus, a phawb wedi mwynhau. Roedd yna sawl aelod yn methu a bod gyda ni oherwydd anhwylder, a dymunodd Dilwen George, y Cadeirydd, wellhad buan iddynt - yn enwedig i Irene Jones, Llambod wedi ei damwain yn ddiweddar.

Bydd y trip nesa Dydd Mercher, Mai 10fed, yn mynd i Sir Benfro. Enwau i Yvonne 480590.

Mab bach

Llongyfarchiadau i Jessica a Chris, Hazeldene ar enedigaeth mab bach. Wŷr i Danny a Heather Bird a gor wŷr newydd i Mr a Mrs McKee. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Gwellhad Buan

Erbyn hyn mae Gareth Davies, Maesglas yn teimlo'n well yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty adeg y Pasg. Gobeithio y byddwch nôl yn helpu plygu CLONC yn fuan.

Diolch

Dymuna Gareth, Maesglas ddiolch i bawb o bell ac agos am y consyrn amdano pan fu yn ysbyty Glangwili adeg y Pasg. Gwerthfawroga hyn yn fawr iawn.

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Dym ddiwrnodau agored yn Ysgol Dyffryn Cledlyn: Nos Fercher, 17.05.17, 4-6 y.p.; Dydd Sadwrn, 10.06.17, 12.00-4.00 y.p. a Nos Lun, 26.06.17, 4-6 y.p.

Llanfair Clydogau

Cydymdeimlad

Daeth tristwch mawr dros yr ardal pan glywyd am farwolaeth Dot Evans, Llanfair Fawr. Roedd Dot yn wraig i Arwyn a'r ddau wedi bod yn briod ers 33 o flynyddoedd gyda dau fab, efeilliaid, Jonathon a Timothy. Bu Dot yn gweithio yn swyddfa cyfreithwyr Arnold Davies am rai blynyddoedd cyn symud i weithio fel cynorthwywraig dosbarth yn Ysgol Ffynnonbedr. Oddi yno gwnaeth ymddeol a phenderfynu symud i fyw yn rhan amser allan i Sbaen, lle y bu farw. Tra'r oedd y bechgyn yn ifanc bu hi ac Arwyn yn meithrin plant gyda gwahanol anghenion. Bu Dot hefyd yn warden Eglwys Santes Fair. Hoffem estyn ein cydymdeimlad dwysaf ag Arwyn, Jonathon, Timothy a'u teuluoedd.

Bowlio Mat Byr

Mae'r grŵp yn parhau i gwrdd i fowlio bob nos Fercher ac er mwyn ehangu'r cymdeithasu cafwyd gwahoddiad gan Sally ac Alan Leech i ymuno â nhw yn eu cartref yn Tan yr Esgair i gael parti bach. Cafwyd croeso a lluniaeth hyfryd a diolch iddynt am drefnu y noson.

Croeso

Estynnwn groeso cynnes i'r pâr ifanc sydd newydd symud mewn i Tŷ Capel, Capel Mair. Mae ef yn dod o Wlad Hwngari a hithau o Wlad Pwyl a'r ddau yn gweithio yn Dunbia. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith.

Clwb Cant

Enillwyr Iwcus y tymor yma yw: Dodi Herschel £20, Bleddyn Williams £10, a'r canlynol wedi ennill £5 yr un - Rebecca Miller, Ellis Hockenhull, Jo Leech, Beth a Jason Satterley, Arwyn Evans a Lynda Quelch.

Beth sy nesaf?

Nos Wener Mai 26 - Helfa Drysor Modur. Manylion yn Siop Y Pentre. Nos Iau, Gwener a Sadwrn, Mehefin 2, 3 a 4ydd, Yr Ŵyl Gwrw gyda barbeciw ar y nos Sadwrn. Grŵp Cerdded, O Eglwys Cellan i Eglwys Llanfair gyda hanes y ddwy Eglwys. Dyddiad ym mis Mai i'w benderfynu.

Noson Lansio

Hunangofiant Aled W. Williams

"Cerrig Milltir" / "Milestones"

7 o'r gloch

Nos Iau, Mai 18fed

Eglwys Sant Pedr, Llanbedr P.S

Croeso cynnes i bawb



RASUS MOCH

ELW'R NOSON TUAG AT :-
TAITH GWIRFODDOL
TWM A MANON
I
BATAGONIA

Nos Wener/Friday night
26ain o Fai/26th of May
7.30yh/7.30pm
Clwb Rygbi Llambod/
Lampeter Rugby Club

Croeso cynnes i bawb/a warm welcome to everyone

Cancer Research UK Te Prynhawn

Yn y Pantri, Llanbed
Mercher 17 Mai 2017

2.00yp

Mynediad trwy rodd

Llywydd:

**Gwen Jones,
Llanybydder.**

The Wash Tub

Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofologofn)
01570 423647

Gwasanaeth o safon uchel:
smwddio, golchi, sychu
a glanhau.
Ac yn golchi *duvets*.



Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns Emporium

Rhoddion Cymraeg
a Phersonol

07818 020907
Drefach, SA40 9SX



dawnsemporium

www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambod
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Tai Bwyta / Siopau

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
a gwybodaeth yn gyswrtedig yn ddiwydiant yswiriant yn ddiwydiant yswiriant



Bu athletwyr Clwb Sarn Helen yn brysur wrth i'r gaeaf droi'n wanwyn. Ar y 30ain o Fawrth fe arweiniodd Gareth Payne 120 o redwyr adref dros 15 cilometr o lwybrau ym mharc gwledig Pembre i ennill mewn 60 munud a 44 eiliad.

Yna ar yr ail o Ebrill aeth dau o aelodau'r clwb i gystadlu yn Ras Crannog sef ras 10 cilometr dros lwybrau i oedolion a oedd yn cael ei chynnal am y drydedd flwyddyn gan Ganolfan yr Urdd. Llwyddodd Tomos Morgans (16 oed) i gwblhau'r cwrs serth a llithrig i lawr i draeth Llangrannog ac yn ôl i'r Ganolfan yn yr heulwen mewn amser arbennig o 44 munud ac 20 eiliad i ddod yn bedwerydd gyda Richard Marks yn cyrraedd y diwedd mewn 50 munud a 6 eiliad. Yr oedd yr achlysur hefyd yn cynnwys sawl ras ieuencid a chafwyd perfformiadau da gan nifer o aelodau ieuencid y clwb. Yn y dosbarth Blwyddyn 3/4 daeth Cai Allen a Casi Gregson yn 3ydd gyda Ellie Maie Jones, Sion Jones a Nia Williams yn cystadlu'n dda. Yn y dosbarth Blwyddyn 5/6 daeth Rhys Williams a Faye Jones yn ail gyda Rhodri Gregson a Beca Jones yn gorffen mewn amserau da. Daeth Daniel Morgans yn 3ydd yn y dosbarth Blwyddyn 7/8 a'i chwaer Elen hefyd y 3ydd yn y dosbarth Blwyddyn 9/10.



Hefyd ar yr ail o Ebrill aeth nifer o redwyr y clwb i ras heol 10 cilometr Tenovus yn cychwyn a gorffen ger y Gerddi Botaneg ym Mhorthyrhyd. Yn y ras ieuencid 5 cilometr fe ymdrechodd Owen Davies a Sean Wood yn galed, y naill yn gorffen mewn 25 munud a 55 eiliad a'r llall mewn 31 munud a 50 eiliad. Ac yn y ras 2.5 cilometr i blant llai fe ddaeth Hari Rivers yn gyntaf a Christopher Readwin yn ail.

Enillwyd y ras oedolion gan fachgen 16 oed (Thomas Jones) mewn amser ardderchog o 36 munud a 40 eiliad ond rhedwyr Sarn Helen aeth a'r wobwr am y tîm cyntaf gyda Carwyn Davies yn 3ydd (37:58) a Simon Hall yn 4ydd (38:22) ac yna Mark Rivers (yr ail wobwr dros 40 oed mewn 41:29) a Tony Hall (yr ail wobwr dros 50 oed mewn 44:12) gyda Mitchell Readwin yn gorffen mewn 49:18. Enillwyd gwobrau hefyd gan Eleri Rivers yr ail fenyw dros 35 (46:12) a Dawn Kenwright yr ail fenyw dros 45 (48:18).

Bu dau aelod yn rhedeg marathon yn Ebrill, sef Nigel Davies a gwblhaodd Marathon Manceinion mewn 3 awr 4 munud a 20 eiliad (record bersonol iddo ef) a Carwyn Davies a brofodd wres y gwanwyn wrth orffen Marathon Paris mewn 3 awr 13 munud a 31 eiliad.



Ar y 9fed o Ebrill yn Abergawun bu 6 o redwyr y clwb yn rhedeg ras heol 10 cilometr blynyddol sy'n codi arian i Fad Achub Abergwaun. Daeth Simon Hall yn 6ed mewn amser (37:59) oedd yn record bersonol gyda Kevin Hughes yn 9fed (39:16) ac yn 3ydd dros 40 oed. Enillodd Tomos Morgans y categori ieuencid, yntau hefyd yn ei amser gorau hyd yn hyn (41:54). Enillodd Tony Hall y categori dros 60 (43:19) gyda Mitchell Readwin, capten tîm dynion y clwb eleni, yn gorffen mewn amser da (47:06) a Dee

Jolly yn agos iawn iddo (47:07).

Yn olaf cynhaliwyd ras heol 10 milltir Teifi, un o brif ddigwyddiadau'r clwb, yn Llanbedr ar y 16eg o Ebrill gyda 26 o redwyr y clwb yn cystadlu. Yr enillydd oedd Daniel Bodman o Aberdâr mewn 53 munud a 16 eiliad ond aeth gwobrau tîm y dynion (Sion Price, Gareth Payne, Simon Hall ac Andrew Abbott) a'r menywod (Dee Jolly, Eleri Rivers, Dawn Kenwright a Delyth Crimes) i glwb Sarn Helen. Daeth Sion Price yn drydydd yn y ras gyfan mewn 57 munud ac 1 eiliad gyda Gareth Payne (y dyn cyntaf dros 40 oed) yn dilyn yn agos mewn record bersonol. Daeth Richard Marks yn ail yn nosbarth y dynion dros 50. Dee Jolly oedd y 3edd fenyw i orffen (mewn record bersonol o 68 munud a 59 eiliad ac Eleri Rivers oedd yr ail fenyw dros 35 oed (hefyd mewn record bersonol o 74 munud a 39 eiliad.) a'r 3edd fenyw dros 45 oed oedd Dawn Kenwright. Rhedwyr eraill i gyrraedd record bersonol am y pellter oedd Simon Hall, Nigel Davies, Mark Rivers, Thomas Willoughby (17 oed), Aled Sion Jones (16 oed mewn amser arbennig iawn o 64 munud a 35 eiliad,) Michael Taylor, George Eadon, Andrew Edgell, Delyth Crimes a Donna Davies. Cafwyd perfformiadau da hefyd gan y brodyr Glyn a Huw Price, Carwyn Thomas, Michael Davies, Murray Kisbee, Tony Hall, Mitchell Readwin a Heather Hughes i gyfrannu at ddiwrnod llwyddiannus iawn i'r clwb.

Cyngerdd yng nghwmni
Cardi-Gân
yng Nghapel y Cwm,
Cwmsychpant
Nos Sul, Mai 14eg 2017
am 7:30g.h.
Llywydd: Mr Dennis Davies,
Penlôn Esger, Pontsian
Tocyn: Oedolion £7
a Phlant dan 14 oed £3
Dewch yn llu

CYNGERDD MAWREDDOG
i ddathlu
50 oed
Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen
Llanbedr Pont Steffan
7:30pm, Nos Sadwrn, Medi 16eg, 2017
yn Theatr Felinfach
yng nghwmni:
Côr Merched Canna
Steffan Rhys Hughes
Charlie Lovell-Jones
Oedolion £10
Plant Ysgol £5
Tocynnau ar gael o'r theatr:
01570 470697
www.theatrfelinfach.cymru

SylwadAu'r SiNeMa



gan Gary Slaymaker

Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn ystod y mis nesaf:

Dydd Gwener 5ed Mai - A UNITED KINGDOM (12A) - Drama ramantus wedi ei lleoli yn nyddie diwetha'r "British Empire", yn y 40au hwyr. Stori wir yw hi am y garwriaeth rhwng tywysog o Botswana ac ysgrifenyddes dosbarth canol o Lundain; ac ymdrechion llywodraeth Prydain i wahanu'r pâr. Mae'n ffilm raenus a choeth, gyda dau berfformiad arbennig gan David Oyelowo a Rosamund Pike fel y cariadon. Un o'r ffilmie bach prin na sy'n gweithio fel stori serch, cofnod hanesyddol, a dogfen cymdeithasol. Bendant werth ei gweld.

Dydd Gwener 19eg Mai - I, DANIEL BLAKE (15) - Odd hon ar fy rhestr o'r 5 ffilm orau mewn sinemâu llynedd. Dyw hi ddim y ffilm clyfra welwch chi, na'r mwy cyffrous, na'r mwya cynnil; ond mae hi bendant yn un o'r pwysica. Hanes saer coed sydd wedi cael harten, ac yn gorfod delio gyda system budd-daliadau hunllefus Prydain. Mae e'n frwydyr dyddiol gan Daniel i fforddio byw a chadw'i hunan barch. Perfformiadau naturiol gwyh, stori syml sy'n gafael yn llwyr, ac ma'r cyfarwyddwr, Ken Loach wedi creu campwaith torcalonnus, sydd hefyd yn rhybudd i ni gyd am y ffordd ma cymdeithas yn dechrau chwalu.

Dydd Gwener 2il Mehefin - MANCHESTER BY THE SEA (R) - Hyd yn hyn, dyma'r ffilm orau i fi weld yn 2017. Stori syml ac effeithiol am ofalwr sy'n gorfod edrych ar ôl ei nai, pan mae'n colli ei dad. Tawel, araf (falle'n rhy araf i rai), ond gyda'r actio gorau wy'di gweld mewn ffilm ers oesoedd. R'odd Casey Affleck yn llawn haeddu ei Oscar am hon, ac ma Michelle Williams crystal pob tamaid. Mewn diwydiant sy'n dibynnu fwy-fwy ar "superheroes" a chyfresi mawr swnllyd, ma cael ffilm fel hon yn chwa anferth o awyr iach. Peidiwch â'i cholli.

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.



Enw: Iestyn Russell

Oed: 26

Pentref: Cwmann

Gwaith: Gwas Fferm

Partner: Sengl

Teulu: Mamgu, Gareth, Eleanor, Llion, Beca, Sioned, Aron ac Efa.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

The Simpsons ... dal i'w wyllo ambell pnawn Sul o hyd!

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.

Doedd dim dal sut oedd ffrindiau neu ddarlithwyr yn dweud fy enw tra yn y brifysgol! Austin oedden i yn y diwedd, ynghyd â sawl enw arall ma well gyda fi anghofio!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

I drin pawb fel fyddet eisiau cael dy drin dy hun.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?

I gymryd pob cyfle sydd yn dod i ti a pheidio â poeni am bethau na alli di ei rheoli. Gwna dy orau i weithio a gwario amser gyda pobl ti am fod fel nhw.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?

Robbie Williams, Sing when your winning.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?

Rheolwr Fferm

Beth oedd y frawddeg bachu gorau a ddefnyddiaist erioed?

Fi 'di trio defnyddio sawl un gwael dros y blynyddau, mor wael na alla'i rannu nhw fan hyn. Well 'da fi adael i fy mhersonoliaeth ddenu y ladies nawr, ond dim llawer o lwc!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Yn sgwrsio gyda Guto Llanfairfach - bob tro yn codi fy nghalon

Beth yw dy lysenw?

Ma sawl un gan wahanol ffrindiau i fi fel Muscle neu Chest, neu adre pan yn tyfu fyny, Twmff o'n nhw yn galw fi ... as in Twmffat! Dim syniad pam.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?

Tywysog Harry! Fi oedd â'r barf yn gyntaf gyda llaw.

Pwy yw dy arwr?

Gareth.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?

Gweithio yn yr awyr agored peth o'r amser.



Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?

Sownd yn y cachu, ac ar concriid trwy'r amser, lladd fy nghefn!

Y peth gorau am yr ardal hon?

Weddol diogel, cyfraddau isel o dor-cyfraith

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Y 2 G: Gossip a Glaw ... a dim maes awyr yn agos

Pa mor wyrdd wyt ti?

Rhowch hi fel hyn, ma gas 'da fi weld pobl yn gwastraffu bwyd!

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?

Cymraeg bob tro. Wedi gweithio mewn sawl ardal arall yng Nghymru, wedi sylwi eich bod yn newid eich tafodiaith i'r ardal, felly pan yn y gogledd, nes i droi i fod yn bach o gog! 'Sut Mae' oedd hi ar Ynys Môn a 'Olew' oedd hi yn y Bala.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?

Rhywbeth sydd yn gwneud hi yn haws i bobl ifanc prynu tai yng nghefn gwlad er mwyn aros yno.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?

Pobol beirniadol a negyddol.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Hawdd. Taith y llewod i NZ, siŵr ei fod yn mynd i fod yn brofiad a hanner.

Beth sy'n codi ofn arnat?

Cyfeiriad fy mywyd a methu yn yr hyn dwi am ei wneud! Bod yn sownd yn yr un sefyllfa mewn blynydde, rhaid symud ymlaen!

Pryd llefaist ti ddiwethaf?

Dim oherwydd tristwch ond mae stori Rhydian Twin am y 'Chicken/Pork Curry' yn dod â dagrau i fy llyged. Tra mewn archfarchnad yn trafod beth fydde i swper, ai curry cyw iâr neu porc, nath Guto Llanfairfach a Gareth Pant lwyddo i greu bach o 'scene' nath orffen

gyda pacyn o cig yn cael ei daflu nol i'r oergell a sawl gair anweddus yn cael ei ddefnyddio! Stori cystal, sa'i yn cofio beth oedd i swper yn y diwedd, spaghetti a beans falle...

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?

Ar ôl gormod o laeth mwnci rhywbryd ma'n siŵr, fi ddim yn un da y bore wedyn yn anffodus.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?

O leiaf dwywaith y dydd, un yn y bore, un yn y p'nawn, a gan fwyaf yn grac gyda fy hun! Ma disgwyl fod yn berffaith trwy'r amser yn gallu bod yn wael i chi!

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?

Awning carafan yn Sioe Frenhinol llynedd, drws nesa i Michael Parry, o'n i bron â rhewi! Ac oedd hyn ar ôl i Tomos Felindre i 'roi' fi mewn i glawdd ar y ffordd nôl i'r garafan heb ddim rheswm. Oedd un ochr ohona i wedi ei bigo gan 'stingy nettles' a rhaid i ddwy ferch oedd yn pasio i dynnu fi allan o'r clawdd!

Am beth wyt ti'n breuddwydio?

Sdim dal, ond yn cael hunllefau yn amal ... a dim wrth gysgu!

Pryd oeddet ti'n borcyn diwethaf o flaen person arall?

Dim ers sbel yn anffodus, ond fi ddim yn hoff o wisgo gormod o ddillad. Yn amal fyddai yn cerdded o gwmpas y tŷ adre yn fy mhants.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Cwblhau Gradd mewn Rural Enterprise and Land Management

Ac yn bersonol?

Ennill Stocmon iau y flwyddyn dros Gymru yn 2008. Diolch byth am CFFi Cwmann, cyfleon arbennig i gael yno - dewch yn llul.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?

Bod fi ddim yn fwy mentrus, mae'r byd yn llawn cyfleon.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?

Tyfu barf cryf, i dynnu sylw pobl oddi ar ddarnau llai apelgar! Habit wnaeth ddechrau pan oedd dim amser gennai i gael shave nôl yn 2013, a dwi byth wedi edrych yn ôl!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Bwyta digon a gweithio yn galed.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

Gan Alan, gyrrwr tancer llaeth un diwrnod, "If you want to get on, get out!"

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Mynd i brifysgol Harper Adams yn 2009. Taflu fy hunan mewn i sefyllfa ddieithr mewn gwlad gwahanol, ond wedi dod allan yr ochr draw wedi gwneud ffrindiau a chysylltiadau ar draws y DU am oes.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Blin, blewog, doniol.

Beth yw barn eraill amdanat ti?

Barod i neud cymwynas ac yn hoff o dynnu coes, ac yn eitha laid back gobeithio!

Pa gar wyt ti'n gyrru?

Ma Peugeot 206 da fi ond dim MOT arno, tua 180,000 ar y cloc!

Beth yw dy hoff air?

Bendigedig neu Pendonciad

Beth yw dy hoff wisg?

Shorts a Flip flops neu siwt, wastad mewn un neu'r llall. Ma trowsus fel carchar i'r coesau!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Pizza, ond dim un o werth i gael yn yr ardal ma.

Beth yw dy ddiod arferol?

Yfed lot o ddŵr, gormod o de, a dim digon o laeth!

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

Cylchgronau am ffermio fwyaf, dim llawer o lyfrau yn ddiweddar, llyfr y seiclwr Geraint Thomas oedd yr un diwetha i fi orffen. Angen ailgydio yn yr habit, hoff o ddarllen am bobl sydd wedi cyrraedd brig eu campau a gweld beth yw eu cymhelliant.

Beth yw dy hoff arogl?

Porfa newydd ei dorri

Sut wyt ti'n ymlacio?

Gwyllo chwaraeon gan amlaf. Trio dilyn timau rygbi a phêl-droed Cymru, a chael ambell daith i ffwrdd i wyllo nhw.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?

Meddylfryd mwy positif ac yn fwy entrepreneurial, does 'na ddim i golli tra yn y byd gan fod neb yn dod allan ohono yn fyw.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?

Bysedd bawd! Anodd byw hebddynt!

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?

Syrffio, ces i flas ohono tra yn NZ

Beth sy'n rhoi egni i ti?

Banana bob bore gyda glasied o ddŵr cyn mynd i weithio.



Llanwnnen

Ysgol Llanwnnen

Dyddiad i'ch dyddiaduron

Cynhelir Prynhawn Agored i ddathlu cyfraniad yr ysgol i'r gymuned dros y ganrif ddiwethaf. ar brynhawn Sadwrn, 8fed o Orffennaf. Croeso cynnes i bawb. Daw mwy o wybodaeth yn ystod y misoedd nesaf.



Bydd hefyd cyfle i chi archebu copi o lun arbennig o'r ysgol gan yr artist Rhiannon Roberts (maint 8 modfedd x 8 modfedd) - pris y llun yw £5 ac os ydych chi am gopi yna galwch mewn i'r ysgol er mwyn archebu un.

Bu nifer o ddisgyblion yr adran iau yn Llambod yn cystadlu yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Rhedodd pawb yn wych a braf oedd gweld nifer o blant yn gorffen yn y deg uchaf sef: Blwyddyn 3 - Sion Jones. Blwyddyn 4 - Steffan Jarman, Lucas Smith a Swyn Tomos. Blwyddyn 5 - Meredydd Davies. Blwyddyn 6 - Rhys Williams, Gruff Tomos, Rhodri Gregson a Beca Jones. Bydd y rhain yn awr yn cynrychioli yr ysgol yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Rhanbarth yr Urdd dechrau'r mis.

Mae'r Gymdeithas Rien i ac Athrawon yn trefnu taith gerdded ar brynhawn Gwener 12fed Mai. Gan obeithio y bydd hi'n noson sych o ran tywydd byddwn yn mynd ar daith o Ysgol Llanwnnen o gwmpas Neuadd. Rydym yn bwriadu cychwyn am 6.00yh o du fas yr Ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Bu plant a staff yr ysgol ar ymweliad ag Ysgol Dyffryn Cledlyn yn ddiweddar. Roedd cyfle gyda ni i gerdded o amgylch yr adeilad newydd a rhyfeddu at yr holl adnoddau hyfryd sydd yn yr Ysgol newydd. Roedd Mr Euros Davies, cynghorydd Sir a Miss Davies, y Brifathrawes wedi ein tywys a dangos i ni y gwahanol ystafelloedd o fewn yr adeilad. Roedden ni gyd yn gyffrous iawn ac wedi rhyfeddu gyda maint yr adeilad newydd.

Sefydliad y Merched

Ym mis Ebrill cynhaliwyd cyfarfod byr i drafod unrhyw faterion busnes o dan lywyddiaeth Avril Jones. Roedd Mrs Tracey Jones o Lanllwni wedi'i gwahodd i'n plith a bu'n arddangos y cardiau cain y mae'n eu gwneud â llaw ar gyfer pob achlysur. Mae'n

amlwg ei bod yn greadigol iawn a chanddi amynedd Job i greu cardiau deniadol a phroffesiynol yr olwg. I ddilyn, cafwyd sesiwn ymarferol gyda'r aelodau i gyd yn mwynhau'r cyfle i wneud cardiau lliwgar ar gyfer y Pasg. Ar ddiwedd y noson bu Tracey yn beirniadu cystadleuaeth y mis, sef y llestr wy pertaf. Doris Jones oedd yr enillydd gyda Gwen Davies yn ail a Ceinwen Roach yn drydydd. Gwen enillodd raffl y noson hefyd. Talwyd y diolchiadau gan Carol Thomas.

Bu'r aelodau yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant, yn ogystal, a daethom ynghyd i wledda gyda Delyth Jones yn Y Pantri, Llambod. Agorwyd y noson gyda Gwen Davies yn ein harwain mewn gweddi ac i ddilyn cafwyd pryd blasus o gawl, danteithfwydydd Cymreig yn cynnwys bara lawr a selsig Morgannwg a phwdin reis neu grymbl afalau i'n digoni ni i gyd. Ar ôl y gwledda, cynhaliwyd ein cyfarfod misol gydag Avril Jones yn llywyddu a thrafodwyd y materion busnes perthnasol. Cyn diwedd y noson, bu Delyth yn beirniadu cystadleuaeth y mis, sef cofrodd o Gymru. Mary Davies oedd yr enillydd, gyda Carol Thomas yn ail ac Avril Jones yn drydydd. Talwyd y diolchiadau gan Avril.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Gareth Davies, Rhos-y-Coed ben-blwydd arbennig yn ystod mis Ebrill yn 80 oed. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r diwrnod.

Clwb Clonc

Mai

£25 rhif 500 :
Alun Williams,
Deganwy, Dolgran, Pencader.
£20 rhif 102 :
Mrs Beryl Davies,
Awel-deg, Heol Cambrian,
Llambod.
£15 rhif 301 :
Mrs Sallie Jones,
Hathren, Heol-y-Bont,
Llambod.
£10 rhif 416 :
Mrs Mair Potter,
Rhosllwyn, Cwmsychpant.
£10 rhif 296 :
Mair Jones,
Hengoed, Heol Llyswen,
Aberaeron.
£10 rhif 360 :
Gwynfor Lewis,
Bronwydd, Heol-y-Bont,
Llambod.
£5 rhif 249 :
Mrs Lynda Jones,
Gwrdd, Stag's Head, Tregaron.

Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno



Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestoring.com

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

ANDREW JAMES PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Eboost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pymptiau Gwres o Ffynonhellau'r
ddaebar a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, shw mae? Beth ydych chi wedi bod yn gwneud dros yr wythnosau diwethaf yma? Ydych chi wedi mwynhau cael llond eich bol o wyau Pasg siocled? Wel mi wnes i fwyta llond cragen o siocled, hyd nes fy mod yn llawn dop! Fuoach chi yn chwarae tu allan gyda'ch ffrindiau? Rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd sbon yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'n nhw tipyn yn fwy na fi, ac yn breffwrdd yn ddi-ddiwedd. Fedrwn chi ddyfalu pwy yw'r ffrindiau hyn? Wel, Fioled y fuwch wrth gwrs sydd bellach allan yn pori yn y caeau. Mae wrth ei bodd yn bwyta'r porfa ffres a chael llond ei hysgyfaint o awyr iach.

Ar waethaf prysurdeb y gwyliau aeth nifer ohonoch ati i liwio llun y cyw bach Pasg. Da iawn chi gyd. Roedd ganddoch chi gyd luniau lliwgar iawn yn enwedig rhai Lois Williams o Lanybydder, Efa Lloyd Jones o Lanbedr Pont Steffan, Gethin Jones-Thomas, Fflur Morgan, o Drefach ac Alaw Mai Edwards o Drefach. Ond y llun mwyaf lliwgar y mis yma oedd un Angharad Davies, Abertegan, Brynteg. Llongyfarchiadau mawr i ti Angharad!


Felly mis yma beth am fynd ati i liwio llun o fy ffrind newydd sef Fioled y fuwch a chofiwch ddychwelyd y llun mewn da bryd i mi.

Ta ta tan toc.



Angharad
Davies
Enillydd
y mis!

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



BRYN BIETING (92)

Mae map Arolwg Ordnans 1831 yn dangos Bryn Bieting ym mhlwyf Llanwenog. Ceir Llain Bieting yng Nghellan a Gwaun y Bieting yn Abergwili.



Mae 'bietin(g)' yn cyfeirio at un o hen arferion ein cyneidiau sef digroeni tir chwynllyd ag haearn gwthio neu arad frest neu gaib fetin. Roedd y tyweirch torredig yn cael eu gadael ar y cae i sychu cyn eu crynhoi'n dwmpathau bychan i'w llosgi ar dân bietin, sef

tân mud. Byddai'r lludw wedyn naill ai'n cael ei wasgaru ar wyneb y tir a'i aredig er mwyn gwella tymer y tir neu'n cael ei chwalu gyda dom y creaduriaid yn wrtaith.

Mae'r enw 'arad frest' braidd yn gamarweiniol gan ei fod yn awgrymu bod yr arad yn cael ei gwthio gan y frest. Roedd hynny yn digwydd ond roedd gwthio o'r forddwyd yn fwy cyffredin. Gwisgai'r betingwr druan glustog neu ffedog ledr i arbed rywffaint ar ei gorff. Daeth betingo yn arfer cyffredin iawn tua diwedd y 18fed ganrif pan oedd galw am drin erwau o dir â'r ychwanegol yn sgil y pris uchel y gellid ei hawlio am rawn. Ond mae'r arfer yn hŷn o lawer na hynny. Gwelais gyfeiriad at yr arfer yn Llandeilo yn 1570.

Y betingwr oedd y person a gâi'r gwaith diddiolch o fetingo. Dywedir

bod digroeni erw o dir yn waith pedwar diwrnod i weithiwr profiadol o gyfansoddiad cadarn. Gallai ddisgwyl tâl o ryw dri swllt y dydd am ei lafur.

Yn ôl cofnod o Fyddfai byddai bwyd yn cael ei ddarparu i'r betingwyr bob teirawr a chwrr yn cael ei facsu'n arbennig ar gyfer y rheini a oedd wrthi. Roedd prydles aml i fferm yn ardal Myddfai yn gwahardd beitingo oherwydd er ei fod yn caniatáu tyfu cnwd da, byddai'r tir, yn y pen draw, yn dlotach o ran ei ansawdd.

Yn 1900 cynhaliwyd achos llys diddorol yn y Belle Vue, Llanllwni a chafodd Syr Courtenay Mansel o Faesyrugiau ei ddirwyo deg swllt am fetingo'n anghyfreithlon.

Mae 'bietin(g)' wedi'i benthycu o'r Saesneg Canol ac yn digwydd yn gyffredin mewn enwau lleoedd ne Lloegr er y bedwaredd ganrif ar ddeg: Beatlands (Dyfnaint); Beaten Flat (Swydd Derby). Mae 'Push Ploughed Field' yn Agden, Sir Amwythig yn coffáu'r un arfer.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru/enwaulleoedd@gmail.com



Offeryn hynod o debyg i'r arad frest neu'r haearn gwthio yw'r 'flaucher-spade' o'r Alban a ddangosir yn y llun hyn. Defnyddid y flautcher i dorri a chodi'r dywarchen cyn dechrau lladd mawn.

Eisteddfod Capel y Croes

Iluniau gan Nia Wyn Davies



Delun Ebenezer, Cellan yn ennill y Canu a'r Adrodd o dan 6 oed yn yr Adran Agored.



Canu 1. Ifan Meredith, Llambled 2. Swyn Tomos, Pencarreg 3. Elen Morgan, Drefach Adrodd – 1. Swyn Tomos. 2. Ifan Meredith 3. Luned Jones, Cwmsychpant ac Elen Morgan.



Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd yn ennill y dwblw rhwng 6 – 8 oed.



Unawd – 1. Ela Mablen Griffiths-Jones, Cwrtnewydd. 2. Fflur McConnell, Aberaeron 3. Beca Ebenezer, Cellan a Gwennan Owen, Llanllwni. Adrodd 1. Ela Mablen. 2. Beca Ebenezer, Cellan. 3. Gwennan Owen, Llanllwni.



Canu 1. Fflur Morgan, Drefach 2. Fflur Meredith, Llambled 3. Tirion Tomos, Pemcarreg. Adrodd 1. Tirion Tomos 2. Esyllt Jones, Cwrtnewydd 3. Fflur Morgan a Noa Potter-Jones.



Ysgol Bro Pedr enillodd gystadleuaeth y Parti Llefaru.



Parti Unsain Ysgol Cwrtnewydd yn ennill y Parti Unsain ac a ddaeth yn 2il yn y Parti Llefaru.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio

* Teiars am brisiau cystadleuol

* Ceir newydd ac ail law ar werth

* Batris * Breccs * Egsost

* Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

Rownd Derfynol Cwpan Sir Gaerfyrddin gan Tomos Rhys Jones



Ar ddydd Sul y 9fed o Ebrill, chwaraeodd tîm rygbi dan-16 Llambled yn rownd derfynol cwpan sir Gaerfyrddin yng Nghlwb rygbi Rhydaman. Tîm dan-16 San Clêr oedd y gwrthwynebwyr mewn gornest cyffrous ar ddiwrnod oer a diflas. Roedd y ddau dîm wedi gwynebu ei gilydd ar sawl achlysur dros y tymhorau diwethaf, ac roedd y canlyniadau yn agos bob tro.

Roedd carfan Llambled yn cynnwys sawl unigolyn talentog, yn cynnwys y bachwr Ryan Mackie Jones a'r canolwr Ewan Bowden, y ddau wedi cynrychioli tîm dan-16 Scarlets y Gorllewin eleni. Dechreuodd Llambled y gêm ar dân wrth i'r wythwr pŵerus, Gethin Morgans, frasgamu ar draws y llinell gais i agor y sgorio am y dydd. Dilynwyd hyn gyda dwy gais arbennig gan y gwibiwr Ewan Bowden, y cyntaf yn dod wrth i'r canolwr Osian Jones daflu pas bach greffus i'w faswr Iestyn Evans wrth iddo redeg ongl penigamp yn syth drwy'r llinell amddiffynnol ac yna lledu'r bêl i Bowden i sgorio o dan y pyst. Yn dilyn yr ail gais, fe giciodd Iestyn Evans y trosiad gan ychwanegu ychydig o bwyntiau at y sgôr.

Cyn hir, fe drosglwyddwyd meddiant y bêl yng nghanol cae ac fe aeth San Clêr ymlaen i sgorio dwy gais i'w hunain, wrth iddynt ddefnyddio pwysau'r blaenwyr cryfion yn effeithiol. Ychydig funudau cyn yr egwyl, cafodd Llambled gic cosb ger llinell gais San Clêr. Yn dilyn llinell da, fe gyfunodd

y blaenagellwr egnïol, Steffan Davies, gyda'r bachwr Ryan Mackie Jones mewn symudiad penigamp gyda'r bachwr yn sgorio yn y gornel dde.

Pan ailddechreuodd y gêm, roedd bechgyn San Clêr fel petaent wedi cael troedigaeth o ryw fath, wrth iddynt garlamu'n nerthol ar draws y cae cyn i'r asgellwr dorri'n rhydd o'r amddiffyn a sgorio yn y gornel. Yn dilyn ambell gais cyflym arall, roedd hi'n edrych yn sicr fel bod San Clêr ar y blaen gyda bron i ugain pwynt. Fe daclodd bechgyn Llambled yn arwrol gyda'r triawd Ryan Evans, Osian Jones a Steffan Davies yn cydweithio'n glyfar i ddifetha ymosodiadau San Clêr. Ildiodd San Clêr y bêl eto, ac fe ledwyd y bêl gan y maswr Evans i ddwylo'r asgellwr Liam Jones cyn iddo ochrgamu ei ffordd i'r llinell i leihau'r gwahaniaeth rhwng y ddau dîm.

Yn dilyn cerdyn felen i San Clêr ac i Llambled, enillodd Llambled gic gosb ar y llinell hanner ffordd wrth i'r eilydd o brop Aled John dderbyn tacl uchel. Fe ymosododd Llambled tuag at y llinell gais cyn i Morgans groesi am ei ail gais. Eto, ychwanegodd Evans y pwyntiau ychwanegol. Yn anffodus, colli oedd hanes y bechgyn o Llambled o 41 i 36. Ond, er gwaethaf y sgôr agos, fe chwaraeodd pob un yn arwrol gan roi o'u gorau drwy gydol y gêm. Pwy a wŷr, efallai bydd rhai o'r chwaraewyr yn gwisgo crys coch Cymru yn y dyfodol!



Angen cludiant i gael mynediad i waith, hyfforddiant, addysg, gofal iechyd, siopa neu gyfarfod â ffrindiau a theulu?

Gall Bwcabus eich cludo yno!

Gwasanaeth yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Sadwrn o 7am - 7pm

Llinell archebu ar agor 7 diwrnod yr wythnos o 7am - 7pm

01239 801601

617 Bwlchfadfa - Llanbedr Pont Steffan

Drwy Talgarreg - Gorsgoch

Dydd Mawrth yn unig

am/pm	am
Rhydowen, Alltrodyn Arms	10.10
Pont-sian, gyf Neuadd	10.12
Bwlchfadfa, gyferbyn lloches	10.20
Talgarreg, Neuadd	10.23
Gorsgoch, Neuadd	10.31
Cwrt-newydd, gyf Llew Goch	10.35
Drefach, cofeb	10.40
Llanybydder, Cwm Aur	10.48
Llanwnnen, gyf Bro Grannell	10.57
Llanbedr Pont Steffan, Nat West	11.03
am/pm	pm
Llanbedr Pont Steffan, Llew Du	1.45
Llanwnnen, Bro Grannell	1.51
Alltbyllicca, Chapel House	1.54
Llanybydder, Cwm Aur	2.00
Drefach, croesffordd	2.08
Cwrt-newydd, Llew Goch	2.13
Gorsgoch, gyferbyn Neuadd	2.17
Talgarreg, gyferbyn Neuadd	2.25
Bwlchfadfa, lloches	2.28
Pontsian, Neuadd	2.36
Rhydowen, gyf Alltrodyn Arms	2.38

618 Talsarn - Llanbedr Pont Steffan

Drwy Bwlchyllan - Silian

Dydd Mawrth yn unig

am/pm	am
Talsarn, gyf Maes Aeron	9.40
Bwlch-llan, Capel	9.48
Llangeitho, sgwar	9.57
Silian, lloches	10.22
Llanbedr Pont Steffan, Llew Du	10.30
am/pm	pm
Llanbedr Pont Steffan, Nat West	12.50
Silian, lloches	12.57
Llangeitho, sgwar	1.19
Bwlch-llan, lloches	1.27
Talsarn, Maes Aeron	1.34

Mae Bwcabus yn rhoi mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i deithio rhwng trefi a phentrefi lleol drwy ddefnyddio siwrneiau a archebir ymlaen llaw a/neu wasanaethau amserlen sefydlog.

Ffoniwch 01239 801 601.

